

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mai 2013

Rhif 433

50c

Rhedeg Strydoedd Llundain



YN ddiweddar, bu tri o drigolion y fro yn rhedeg Marathon Llundain. Rhedodd Carwyn Evans o Gerlan a Gethin Jeffreys o Fraichmelyn er mwyn cefnogi elusen yr Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig, salwch yr oedd y ddiweddar Gavin Bolton yn dioddef ohono. Roedd Elfyn Bullock o Fethesda yn rhedeg er budd elusen Crydcymalau'r Deyrnas Unedig, cyflwr y mae ei fam yn dioddef ohono.

Mae'r tri wedi bod yn hyfforddi ers y Nadolig, pan dderbyniwyd y cadarnhad o'i llefydd yn y marathon. Cwblhawyd y marathon ganddynt oll mewn amseroedd teilwng iawn. Wrth ystyried fod y tymheredd yn 15 gradd Celsius ar gyfartaledd, roedd hyn yn dipyn o gamp. Llwyddodd y tri i hel symiau sylweddol tuag eu helusennau penodol.

Dywedodd Carwyn Evans, eu bod wedi cael "profiad da, ond blinedig." "Roedd hi'n braf cael anogaeth y dorf wrth redeg, yn enwedig yn ystod milltiroedd olaf y marathon".

Dymunant ddiolch o waelod calon am yr holl arian, nwyddau a chymorth roddwyd iddynt gan drigolion lleol tuag at yr achosion. Mae'r swm a gasglwyd yn dyst i haelioni trigolion Dyffryn Ogwen ac ymhellach.

Braf yw gweld y gwaith da y gellir ei gyflawni gan yr elusennau o achos yr arian a gasglwyd.

**DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG
2013**

" Mae Pawb yn Cyfri' "

Traddodir y ddarlith gan

Yr Athro Gareth Ff. Roberts
yn Llyfrgell Bethesda

Nos Lun, 17 Mehefin, 2013
am 7.30 o'r gloch

Croeso Cynnes i Bawb

Mynediad am Ddim

Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts hylaw@btinternet.com	☎ 600965
Ieuan Wyn cylch@tiscali.co.uk	☎ 600297
Lowri Roberts l.roberts11@btinternet.com	☎ 600490
Dewi Llewelyn Siôn dewision@btinternet.com	☎ 07901 913901
Fiona Cadwaladr Owen Fiona@fowen.wanadoo.co.uk	☎ 601592
Siân Esmor Rees sian_esmor@btinternet.com	☎ 600427
Neville Hughes nev_hughes@btinternet.com	☎ 600853
Dewi A Morgan dewimorgan@live.co.uk	☎ 602440
Trystan Pritchard trystanrp1@gmail.com	☎ 07402 373444
Walter W Williams waltermenai@yahoo.co.uk	☎ 601167

SWYDDOGION

Cadeirydd: Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440 dewimorgan@live.co.uk
Trefnydd Hysbysebion: Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA ☎ 600853 nev_hughes@btinternet.com
Ysgrifennydd: Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH ☎ 601415 garethllwyd197@btinternet.com
Trysorydd: Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872 godfreydnortham@hotmail.com
Y Llais Drwy'r Post: Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184 post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Trystan Pritchard.

Golygydd mis Mehefin fydd Siân Esmor Rees, Gwenlais, 8 Bron Arfon, Llanllechid, LL57 3LW. 01248 600427.
sian_esmor@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 5 Mehefin os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 20 Mehefin, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.



DYDDIADUR Y DYFFRYN

- ### Mis Mai
- 17 Noson yng Nghwmni Tammy Jones. Clwb Criced a Bowlio Bethesda am 7.30.
 - 18 Bore Coffi Caban y Gerlan. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
 - 19 Cymanfa Annibynwyr Dosbarth Bangor a Bethesda. Carmel Llanllechid. 10.30 a 5.30.
 - 22 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
 - 25 Rali Clybiau Ffermwyr Ifanc. Fferm Coed Hywel, Glasinfryn.
 - 25 Bore Coffi Gorffwysfan. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
 - 28 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00
 - 30 Merched y Wawr Bethesda. Taith Ddirgel.

- ### Mis Mehefin
- 01 Bore Coffi NSPCC. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
 - 01 Cyngerdd Bryn Fôn. Clwb Criced a Bowlio Bethesda am 7.30.
 - 06 Sefydliad y Merched Carneddi. Cefnfaes am 7.00
 - 07 Bore Coffi Samariaid. Neuadd Ogwen. 10.00 -12.00
 - 08 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.
 - 15 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
 - 22 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
 - 25 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00
 - 26 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30
 - 29 Te Mefus yn Ysgoldy Eglwys Maes y Groes, Talybont.
 - 29 Bore Coffi Gŵyl Afon Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Mai
£30.00 (110) Dafydd Owen, 6 Lôn Groes, Rachub.
£20.00 (117) Gwenda Bowen, Stryd Hir, Gerlan.
£10.00 (155) Bessie Buckley, 32 Maes Ogwen, Tregarth
£5.00 (96) Gwynfryn Davies, Glan Traeth, Ffordd y Gogledd, Caernarfon

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Llais Ogwan yn Chwilio am Ddeunydd Diddorol

Cafwyd ymateb i'r cais am fwy o amrywiaeth o fewn ein papur bro, ac fel y gwelsoch yn rhifyn Ebrill rhoddwyd cychwyn i ddwy golofn newydd, y naill gan Janet Jones a'r llall gan Arwyn Oliver. Rydym yn gwerthfawrogi eu parodrwydd i gyfrannu yn y modd hwn.

Os oes rhai ohonoch chi'r darllenwyr yn awyddus i gyfrannu'n rheolaidd, boed yn fisol, bob yn ail fis neu bob chwarter, rhowch wybod i ni. Neu, os gwyddoch chi am rywun a fyddai'n medru cyfrannu ar ryw bwn neu'i gilydd, a'ch bod yn teimlo y byddai'n fodlon gwneud pe bai'n derbyn gwahoddiad, yna rhowch wybod inni fel y medrwn ni roi proc iddo fo neu hi!

Beth am y pynciau canlynol? Cornel y Plant, Byd y Bobl Ifanc, Amaethyddiaeth, Colofn Grefyddol (fel Munud i Feddwl), Cyfrifiaduron, Ffasiwn, Harddwch, Cerddoriaeth o bob math.

Cysyllttr â Ieuan Wyn, Cadeirydd Panel y Golygyddion, 600297 cylch@tiscali.co.uk neu 85 Ffordd Carneddi.

Rhoddion i'r Llais

£330.00	Cyngor Cymuned Bethesda
£ 5.00	Dienw, Bangor
£ 10.00	Er cof am Tom a Mary Davies, Castle House, gan Emyr, Heulwen a'r teulu
£ 10.00	Gwyn Roberts, Maes yr Hedydd, Tregarth
£ 5.00	Er cof am dad, Robert John Pritchard, a fu farw 16 Mai 1959, oddi wrth David a Helen. Er cof am ben-bwydd fy mab, Robert Werner Pritchard, 26 Mai 1971 yn 42 oed.
£ 20.00	Er cof annwyl am ben-blwydd Albert (10 Mai). Hiraeth mawr. Muriel a'r teulu, 21 Glan Ffrydlas, Bethesda.
£ 5.00	Di-enw, Bethesda
£ 10.00	Er cof am y ddiweddar Mrs Mair Griffiths, Bryn Tirion, Bethesda, oddi wrth y teulu.

Diolch yn Fawr

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Llythyrâu

Annwyl Olygydd,

Am ei bod yn 50 mlynedd eleni ers i'r rhai a fentrodd i'r Coleg Normal yn 1963 mae aduniad yn cael ei drefnu i gyn-fyfyrwyr y flwyddyn honno. Roedd sawl un ohonynt yn dod o Ddyffryn Ogwen. Mae rhai wedi cael gwybod eisoes ond nid oes gennym gyswllt â phob un. Trefnir yr aduniad yn un o hen adeiladau'r Normal ym Mangor ym mis Medi. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â fi drwy wil@gwynedd.net

Gyda diolch,

William H Owen
Bangor

Annwyl Ddarllenwyr,

Ym mis Ebrill roedd hi'n flwyddyn ers i mi ddechrau yn fy rôl fel Comisiynydd y Gymraeg. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gysylltodd â mi yn ystod y flwyddyn. Trwy rannu eich profiadau, a thrwy gyflwyno cwynion am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg, ymateb i'r ymgynghoriad ar safonau, mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ac ymweld â'n stondin yn sioeau'r haf, fe wnaethoch gyfraniad gwerthfawr i lwyddiant y gwaith a fy ngalluogi i a'm tîm o swyddogion i adnabod y materion sydd o bwys i siaradwyr Cymraeg ym mhob cwr o Gymru.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn mewn ffigyrau:

- Delio â 466 o achosion gan unigolion oedd yn teimlo bod ganddynt le i gwyno am wasanaeth Cymraeg
- Croesawu dros 300 o bobl i'n cyfarfodydd cyhoeddus

- Derbyn dros 260 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar safonau mewn perthynas â'r Gymraeg
- Dosbarthu dros 10,000 o fathodynau 'Iaith Gwaith' sy'n dangos bod person yn siarad Cymraeg

Yn ein hail flwyddyn, byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn ac yn gweithredu i herio sefyllfaoedd lle caiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Yr haf hwn bydd stondin y Comisiynydd yn ymweld ag Eisteddfod yr Urdd yn Sir Benfro, y Sioe Fawr yn Llanelwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych. Os ydych yn mynychu'r sioeau hyn, dewch draw i'n gweld i drafod eich profiadau a chyflwyno eich cwynion, derbyn bathodyn Iaith Gwaith a thafleddi gwybodaeth am waith a rôl y Comisiynydd.

Mae cyfle hefyd i dderbyn gwybodaeth a bwydo i mewn i'r ymholiad statudol arbennig yr ydym yn ei gynnal er mwyn edrych mewn manylder ar y defnydd o'r Gymraeg yn y sector ieuchyd.

Yn gywir

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
post@comisiynyddygymraeg.org
0845 6033 221

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

Nyth y Gân

Y Geni

Fe oerodd 'rôl ei fwriad, a'i lyfu'n
Wylofus fu'r ddafad;
Oedodd, a daeth symudiad,
Ac iddi hi mawr foddhad.

Gwanwyn Trychinebus 2013

Gwêl wal y torri calon, - i'r geni
Bu'r gwanwyn mor greulon;
Hyll ydoedd y colledion,
Ni ddaw nwyf i ddyn o hon.

Y Grug

Fy hoff blanhigyn yn y cwm
Yw'r un ddewisodd gartref llwm,
A llwyddo mae â'i glychau mân
I'n denu ato i wrando'i gân.

Ar wyneb oer y creigiau llwyd
Mae'n gallu dod o hyd i'w fwyd,
A ffynnu mewn gwisg borffor hardd
Yr union fan o ble y tardd.

Mae'n rhan o'r mynydd ac o'r ffridd,
Nid yw i fod mewn potyn pridd;
Hoff ganddo'r unigeddau maith
I orwedd dan fil berlau llaith.

Pedolau

O gae sioe marchogais hi yn ieuanc,
Mor dawel oedd Biwti,
Ond ar ôl ei phedoli
Adlais hen sŵn glywais i.

Y Merlod Mynydd

Yn yr awel roedd rhewynt, a gwylio
Ei gilydd yr oeddynt;
Arall ran oedd gan y gwynt
I estyn y lluwch drostynt.

Dafydd Morris

Cartref Plas Ogwen

Y Cartref fo'n nef i ni, - am seibiant,
Am syber gwmpeini;
Gan geraint, daw braint a bri,
I'r gwan darperir gweini.

Gwanwyn

Ias gwanwyn dros y gweunydd, - a
hwyllo

Mae'r haul dros y mynydd,
A gwawn hyd fysedd y gwÿdd
Hyd aelïau glas y dolydd.

Goronwy Wyn Owen



O 'Tŷ Ni'

I'r plant mae'r stori fach yma sy'n dod o China bell - stori am Min So a Meng Lin. 'Roedd mamau a thadau China yn adrodd y stori yma wrth eu plant.

Dyn tlawd iawn oedd Min So. Pan oedd yn gweithio yn ei gae reis un diwrnod, gwelodd aderyn yn gorwedd ar lawr. Aeth ato, a'i godi yn ofalus. Gwelodd fod un o adenydd yr aderyn bach wedi torri. Aeth Min So a'r aderyn adref a rhwymo ei adain a rhwbio menyn fel eli ar y briw. Er bod bwyd i'r teulu yn brin, fe rannodd Min So yr ychydig o reis oedd ganddo gyda'r aderyn bach. Pan oedd yr aderyn bach wedi gwella, ehedodd i ffwrdd. Ymhen ychydig o ddyddiau, daeth yr aderyn yn ôl i ardd Min So a gollwng hedyn bach yn y pridd. Ni fu Min So na'i deulu yn brin o fwyd byth wedyn.

'Roedd cymydog cyfoethog yn byw drws nesaf i Min So. Meng Lin oedd ei enw. Pan glywodd am yr hedyn yma, 'roedd o eisiau un hefyd. Gwyliodd yr aderyn bach, a phan ddaeth yn ddigon agos ato, tafodd garreg a thorri ei adain. Aeth Meng Lin â'r aderyn bach i'w gartref a rhoi reis a bwyd drud iddo nes 'roedd yr adain wedi gwella. Ymhen amser, ehedodd yr aderyn i ffwrdd. Un diwrnod, gollyngodd yr aderyn hedyn yng nghae reis mawr Meng Lin. Ond wir i chi, chwyn dyfodd yn y cae reis yma wedyn ac ni chafodd Meng Lin reis da yn ei gae byth wedyn.

O 'Tŷ Chi'

Mae'n siŵr fod gan nifer ohonoch rywbeth i'w rannu gyda darllenwyr Llais Ogwan. Dyma syniadau - tips garddio, neu lanhau, digwyddiad diddorol, rysâit, jôc, limrig ddigri, hanesyn diddorol, byd natur a.y.b. Cysylltwch â jan@erwlas.freeseve.co.uk, neu Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN - gan gofio rhoi enw a chyfeiriad 'Tŷ Chi'

Gobeithio y cawn i gyd rannu eitemau hwyliog a diddorol.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Ymunwch â Chlwb Cant
Cyfeillion Llais Ogwan.
Gwobrau hael bob mis.

Neville Hughes

☎ 600853

Bethesda

Liên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐☎ **601902**

Llyfrgell Bethesda
Bu rhai o arddwyr brwdfrydig Dosbarth 4,Ysgol Penybryn yn plannu sawl gwely blodau gwyllt a 'chaffi lindysyn' ar dir y Llyfrgell. Roedd staff y Llyfrgell, Partneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru ac Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd yno i oruchwylio a rhoi help llaw.

Diolch
Dymuna Gill, Sara, Charlotte, William a’r holl deulu ddiolch i bawb am eu geiriau caredig a phob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn marwolaeth gŵr, tad a thaid annwyl, sef Bill Lloyd-Williams, Min Ogwen, Ffordd Bangor. Diolch hefyd am yr holl gardiau a rhoddion tuag at Genhadaeth Y Morwyr a Bâd Achub Moelfre. Bydd swm anrhydeddus o £700 yn cael ei rannu’n gyfartal rhwng y ddau achos er cof am Bill. Dymuna’r teulu ddiolch hefyd i’r ymgymerwr, Gareth Williams, am ei drefniadau parchus a thrylwyr.

Ymdeoliad
Ar ddiwedd mis Mawrth daeth cyfnod i ben yn y feddygfa ym Methesda. Ar ôl dros chwarter canrif yn gwasanaethu fel meddyg yn yr ardal ymdeolodd Dr Niki Heinderstorff. Bu llawer o newidiadau ers iddi ddechrau fel locwm yn Rhes Buddug ac yna ymuno â’r bartneriaeth. Yn ei bywyd personol yn y cyfnod priododd a daeth yn fam i bedwar o hogiau. Dysgodd Gymraeg er mwyn cyfathrebu gyda’i chleifion. Mawr fu’r disgwyl am y feddygfa newydd a daeth i safle hen orsaf drenau Bethesda gan gael ei henwi yn unol â’r safle Yr Hen Orsaf. Bydd yn golled ar ei hôl a dymunwn yn dda iawn iddi hi, fel Mrs Pickering bellach a’i gŵr Doug ar ymdeoliad hapus iawn.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Lowri a Dylan Williams ar enedigaeth merch fach Lili Mair, chwaer fach i Ela Lois ac wyres i Derek a Sylvia Griffith, Rhos y Coed ac Anna Williams, Rachub.

Diolch
Hoffai Elfed a Rita Bullock ddiolch o galon i’r teulu, ffrindiau a chymdogion – yn wir i bawb a gefnogodd Elfyn Bullock drwy ei

Apêl Eleanor Jones



Noson Caws a Gwin
Hoffai Eleanor, Richard, a'r teulu, ddiolch i bawb a wnaeth gefnogi'r Noson Adloniant a Chaws a gwin yn ddiweddar yng nghwmni Hogia'r bonc, Boncathod a Gwenllian Jones. Braf oedd gweld y clwb yn llawn a phawb yn mwynhau noson hwyliog a llwyddiannus

Mae'r diolch i Alun a Janet am gynnig trefnu'r noson tuag at yr apêl , ac am wneud y posteri a'r tocynnau , ac i'r artistiaid i gyd am roi eu hamser, a hynny yn rhad ac am ddim. Diolch hefyd i'r Clwb Criced a Bowlïo am gael defnyddio'r clwb i gynnal y noson, a diolch i bawb a wnaeth helpu ar y noson, yn enwedig y Pwyllgor Apêl .

Roedd yn braf cael cwmni Iona Davies a Helen Davies, a oedd yn bresennol i gynrychioli Ward Alaw. Cyflwynwyd y siec gyntaf iddynt gan y pwyllgor apêl i dalu am yr offer hollbwysig a oedd ei angen ar y ward . O bryd i’w gilydd gwelir yn y wasg leol o'r offer sydd yn cael ei brynu gyda'r arian sydd yn cael ei godi .

Diolch i'r ardal gyfan am eich cefnogaeth gyson at yr achos da yma ac am noson lwyddiannus arall. Yn ystod y noson cyflwynwyd siec i Ward Alaw am £3,300 a chafwyd gair ar ran Ward Alaw gan Iona Davies.

Noson i'w chofio!
Ar Ebrill 22 cynhaliwyd cyngerdd gan Gôr Iau a Chôr Hŷn Ysgol Glanaethwy yng Nghapel Jerwsalem, gyda'r elw yn mynd at apêl Eleanor Jones i Brynu Offer i Ward Alaw. Cafwyd gwledd o noson gan y ddau gôr, a gan unigolion o'r ddau gôr yn perfformio. Roedd tyrfa luosog wedi dod ynghyd, gyda'r capel yn llawn, a chytunai pawb y cafwyd noson i'w chofio. Hoffai Eleanor a Richard, a'r pwyllgor apêl, ddiolch o galon i Cefin a Rhian, a'r ddwy ygeilyddes, am roi eu hamser yn rhad ac am ddim er budd yr elusen haeddiannol hon. Diolch arbennig iawn i'r bobl ifanc hynod o dalentog a roddodd wledd i ni gyda'u doniau disglair. Diolch hefyd i Fanc HSBC am rodd haelionus tuag at y noson. Gwnaed elw sylweddol iawn tuag at yr Apêl.

noddi ym Marathon Llundain yn ddiweddar. Roedd yr arian yn mynd at ymgyrch Arthritis Care. Hefyd rhaid llongyfarch Gethin Jeffreys a Carwyn Evans, hwythau wedi bod yn rhedeg yn y Marathon i godi arian at Cystic Fibrosis. Da iawn hogia, wedi cynrychioli Bethesda a Chymru yn Llundain a chodi arian at achosion da iawn!

Diolch
Dymuna Brenda, Ann, Derek, a Dilwyn ddiolch yn ddiffuant i gymdogion, ffrindiau a theulu pell ac agos am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt, un ai trwy air neu lythyr, cerdyn, ymweliad neu alwad ffôn ar achlysur marwolaeth eu mam, Mrs Mair Griffiths, 27 Bryntirion, ar 30 Mawrth 2013 yn 92 oed. Cynhaliwyd gwasanaeth teilwng iddi ar 9 Ebrill yng Nghapel Bethania, lle roedd llawer o ffrindiau wedi ymuno â’r teulu i dalu teyrnged i berson annwyl a charedig. Roedd y Gwasanaeth

dan ofal y Parchedig Gwynfor Williams, a Mrs Helen Williams oedd wrth yr organ. Diolch i’r ddau am eu gwasanaeth gofalus. Rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent Coetmor.

Derbyniwyd swm o £500 yn rhoddedig i Ambiwylans Awyr Cymru yn enw Mair Griffiths. Yn olaf, diolch i’r ymgymerwr, Mr Gareth Williams, Garneddwen, am ei drefniadau parchus a thrylwyr.

Pen-blwydd
Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i Mrs Ann Roberts, Rhos Ogwen, a ddathlodd ben-blwydd arbennig ar 20 Ebrill.

Cartref Newydd
Croeso i Mr John Jones i’w gartref newydd yn Abercaseg

Ysbyty
Cofion a gwellhad buan i rai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar: Mrs Marion Griffith, Pant.

Mr Emyr Griffiths, Garneddwen.

Taid a Nain
Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Alan Owen, Bryntirion, ar yr achlysur hapus o ddod yn nain a thaid; a hefyd i Mrs Rona Griffiths, Garneddwen, ar ddod yn hen-nain ac i Mr Dafydd Owen, Llanfairpwllgwyngyll, ar ddod yn hen daid. (Ganwyd plentyn i Mr a Mrs David Owen).

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr a Mrs Emrys Lloyd Parry, Ffordd Ffrydlas, ar golli chwaer annwyl Phyllis, sef Mrs Glenys Austin a oedd yn byw yn Lloegr. Ein cydymdeimlad dwys iddynt hwy ac i weddill y teulu.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr a Mrs Thomas R Jones, Rhos y Coed, a’r teulu i gyd, yn eu profedigaeth o golli Mr Gwilym Lewis, Bangor, priod annwl Mrs Mai Lewis, chwaer Heddwen.

Marwolaeth
Ar 5 Ebrill, yn ei gartref yng Nghyffordd Llandudno, bu farw Mr Ceinion Price Jones, gynt o 19 Ffordd Ffrydlas, yn 90 oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs Sarah Ann Jones a llysdad caredig i Jean a John. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Iau, 11 Ebrill, gyda gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Yn sydyn, ar 11 Ebrill, bu farw Mr Arthur Wilson (Arty) yn ei gartref, 2 Parc Meurig, yn 71 oed. Mab y diweddar Mr a Mrs Wilson, Parc Meurig, brawd ac ewythr hoffus a charedig i’r plant. Gŵr tawel a pharchus oedd Arty. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 19 Ebrill, gyda gwasanaeth yn ei gartref, Eglwys Crist, Glanogwen a mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Matthews gyda Mrs Christine Edwards ar yr organ, Cydymdeimwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Ar 12 Ebrill, yn ei gartref yn 7 Glanogwen, bu farw Mr Ernest Sullivan (Ernie) yn 84 oed. Priod Mrs Mair Sullivan, tad Alan, David, Shirley a Lynne, a thad-yng-nghyfraith Marian, Glenys, Alan a Gareth. Taid a hen-daid hoffus a brawd Mr Francis Sullivan a’r diweddar Jack, Griff a Frank. Cynhaliwyd ei angladd fore Sadwrn 20 Ebrill, gyda Gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlogsgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig

CAPEL BETHANIA

Mai:
19 a 26: Dim Oedfa

Mehefin:
02 Miss Eleri Ll Jones
09: Dim Oedfa
16: Y Parchedig Gwynfor Williams
23: Dim Oedfa

Oedfaon am 5.30

Croeso Cynnes i Bawb

John Matthews gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch, Mrs Sullivan a'r teulu i gyd yn eich profedigaeth o golli priod, tad, taid a hen-daïd hoffus a charedig.

Yn ysbyty Gwynedd ar 14 Ebrill, bu farw Mr William Thomas Roberts, 27 Glanffrydlas, yn 88 oed. Priod annwyl Mrs Mair Roberts a brawd-yng-nghyfraith Mrs Bet Owen, Glanffrydlas. Cynhaliwyd gwasanaeth ddydd Llun 22 Ebrill, yn Amlogsgfa Bangor, gyda'r Parchedig John Matthews a'r Parchedig Geraint Hughes yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi, Mrs Roberts, Mrs Owen a'r teulu i gyd Dymuna Mrs Roberts ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd r. Diolch am yr ymweliadau, y cardiau, ac am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati. Diolch hefyd i Mr. Gareth Williams, yr ymgymwrwr, am ei garedigrwydd a'i drefniadau gofalus. Diolch yn fawr iawn.

Ar 21 Ebrill, wedi salwch blin, bu farw Mr William Derek Twigge, 14 Maes Coetmor, yn 59 oed. Cydymdeimlwn gyda ei briod Mrs Blodwen Twigge, tad annwyl Liam a thaid Tyler James a brawd bach John, Mona, Enid, Anne, Joe, Myra a'r diweddar Peggy a Meirion. Roedd Wil yn uchel ei barch gan deulu a chyfeillion. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Llun, 29 Ebrill, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlogsgfa Bangor, lle daeth tyrfa fawr ynghyd i ddangos eu parch. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Matthews a'r Parchedig Jenny Hood gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth o golli Wil.

Profedigaeth

Mewn cartref yn Ormskirk ar 21 Ebrill, bu farw Mrs Glenys Vaughan Austin yn dawel yn ei chwsge. Roedd yn 87 mlwydd oed. Priod garedig y diweddar Mr George Austin, mam annwyl Robert, Linda, Wendy, James a John a'r diweddar Janice. Nain a hen nain hoffus i'r wyrion a'r wyresau a chwaer annwyl Phyllis Mary a'r diweddar Cledwyn, Ceraint ac Emlyn. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Ormskirk ar ddydd Iau, 3 Mai.

Pen-bwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Violet Williams, 33 Adwy'r Nant, ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn!

Gorffwysfan, Stryd Fawr

Ar ddydd Mercher 24 Ebrill aeth yr aelodau ar wibdaith i'r Wyddgrug a Chanolfan Siopa Brychdyn. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau. Diolchodd y Cadeirydd, Mr Eric Jones, am y trefniadau.

Cynhelir y wibdaith nesaf ddydd

Mercher, 26 Mehefin – taith i'r Bala, Dolgellau a'r Bermo. Rhestr yn Gorffwysfan o 1 Mehefin ymlaen.

Wnaiff yr aelodau gofio am y bore coffi, dydd Sadwrn 25 Mai yn Neuadd Ogwen o 10.00 tan 12.00. Bydd angen help gan yr aelodau os gwelwch yn dda. Bydd angen gwobrau ar gyfer y raffl a nwyddau ar gyfer y bwrdd gwerthu.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn fore Sadwrn, 20 Ebrill, yn Neuadd Ogwen, gydag elw o £450 yn mynd tuag at waith y cyfeillion yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi. Diolch am y gwobrau hael ar gyfer y raffl gan fusnesau'r Stryd Fawr a chyfeillion y Dyffryn, a hefyd am y nwyddau ar gyfer y bwrdd gwerthu.

Hefyd cafwyd noson lwyddiannus yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, nos Sadwrn 27 Ebrill yng nghwmni Côr Dinas Bangor a Chôr Dyffryn Peris. Diolch i Westy Dobadarn am ei gymorth a'i haelioni ac i Mrs Nia Williams am y trefniadau. Gwnaethpwyd elw o £350.

Yna ar nos Sul, 21 Ebrill, yng Nghapel Jerusalem, cynaliwyd cyngerdd yng nghwmni Ysgol Glanaethwy, sef Côr Hŷn a Chôr Iau yr ysgol. Cafwyd noson i'w chofio! Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn ac yn rhyfeddu at dalentau'r aelodau. Diolch yn fawr iawn iddynt am y noson – ac wrth gwrs, diolch arbennig i Cefin a Rhian Roberts.



Cefin a Rhian Roberts, Ysgol Glanaethwy

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

GWASANAETHAU'R SUL

Mis Mai

19 Parch. Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts.
26 Parch. Gerallt Lloyd Evans.

Oedfaon am 5.30

Croeso Cynnes i Bawb

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

'LLENWI'R CWPAN'

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd

Sefydliad y Merched, Carneddi

Cyfarfod 2 Mai: Ar noson hynod o braf rhoddodd ein llywydd, Gwyneth Morris, groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod. Cafwyd rhai ymddiheuriadau ac anfonwyd ein cofion at nifer o aelodau sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Derbyniwyd cofnodion y mis blaenorol gan Jean Hughes ac fe aeth Gwyneth ymlaen i ddarllen a thrafod y llythyr misol.

Ar ddechrau'r cyfarfod trafodwyd y penderfyniadau ar gyfer y cyfarfod blyneddol yng Nghaerdydd ar 1 Mehefin. Un penderfyniad yn unig oedd gerbron i'w drafod a'i basio, sef cadarnhau bod angen cadw siopau bach ein hardal i ffynnu, rhag eu gorfodi i gau. Daw hyn yn rhy hwyr i lawer o ardaloedd yn anffodus!

Ein gŵr gwadd am weddill y noson oedd John Gwyn Williams, wedi ymddeol o'r Adran Iechyd erbyn hyn, ond yn dal i wirfoddoli gydag adran cŵn tywys y deillion. Nid dyna oedd testun ei sgwrs chwaith, ond y pleser o fod yn wirfoddolwr yn y gemau Paralympaidd yn Llundain yn ystod yr haf.

Dangoswyd sleidiau o'r pentref lle roedd yr athletwyr yn byw a lluniau llawer o'r cystadleuthau yn y stadiwm. Fe dreuliodd John saith wythnos yno i gyd, a'i swyddogaeth oedd bod yn gyfrifol am athletwyr yr Unol Daleithiau. Cafodd gyfle i gyfarfod ag amryw o enwogion y gemau gan fwynhau'r profiad yn fawr iawn. Yr oedd John yn y stadiwm ar noson cau'r gemau a diffodd y fflam Olympaidd. Noson wych a bythgofiadwy, meddai. Diolchodd Gwyneth iddo am ei gyflwyniad ac i'r merched am y baned. Enillydd y raffl, rhoddedig gan Rita Bullock, oedd Beti Jones.

Yr Eglwys Unedig

Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Wedi sacrament y Groglith a gwasanaethau Sul y Pasg paratowyd ni yn ysbrydol ar gyfer Ebrill. "Wele Ebrill glas ei lygad," chwedl Eifion Wyn ac edrychwn ymlaen at ein gwasanaethau a'n cyfarfodydd.

Gweddïwn dros yr aelodau, cyfeillion ac eraill y tu hwnt i furiau'r capel sydd dan gysgod gwaeledd, unigrwydd, profedigaeth neu unrhyw anhwylder. Dymunwn wellhad buan a bendith arnynt.

Cydymdeimlwn â sawl teulu'r mis hwn. Mae'r Fns Vera Morgan wedi colli ei chefnider yn ddiweddar, a'r Fns Ann Hughes wedi colli modryb a hefyd y Fns Mair Roberts wedi colli ei gŵr. Estynnwn ein cydymdeimlad at Vera, Tom a'r teulu, at y Parchedig Geraint Hughes ac Ann, ei wraig, ac at Mair Roberts a'r teulu i gyd.

Yn ychwanegol, cydymdeimlwn â'r Fns Marion Sullivan sydd wedi colli ei thad yng-nghyfraith a hefyd y Fns Ann Trevor Jones sydd wedi colli ei brawd. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y ddau deulu.

Ar y 9fed, cynhaliwyd ein Cyfarfod Gweddi misol dan ofal Gwenno gydag Elena, Jean ac Eurwen yn cynorthwyo, dan gyfeiliant Eileen.

Nos Iau, 11 Ebrill, cynhaliwyd Cymdeithas y Chwirydd gyda Marian Jones a Nora O'Brien, Bangor, yn arddangos eu gwaith Celf. Cawsom enghreifftiau o baentiadau gwyh o Gwm Idwal, Tryfan a Llyn Ogwen gan Marian. Roedd Nora, ar y llaw arall, yn gweithio â gwydr lliw a phlwm. Dangosodd enghraifft fendigedig o Ynys Llanddwyn o'r awyr, a llawer mwy. Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt am noson eithriadol ddiddorol gan Jennie ac i Alwena, Elna a Mair am ddarparu'r lluniaeth.

Fore Sadwrn, y 13eg, bu Bore Coffi'r gymdeithas yn Neuadd Ogwen. Gwnaethpwyd elw o £401.23. Mawr yw ein diolch am bob cefnogaeth ac ewyllys da.

Ar y 14eg, hyfryd oedd gweld plant yr Ysgol Sul yn ôl wedi'r gwyliau. Y mis hwn, Anna Lois, Lleucu a Luned oedd yn arwain emyn y plant. Diolch amdanynt.

Mae Clwb Nos Fawrth hefyd yn dal i fynd rhagddo a'r Seiadau yng ngofal Sioned, ar wahân i Nos Fawrth, y 23ain. Y noson honno, cawsom 'Flas Ar Bolifia', yng nghwmni Cecilia Cordova (Gweithiwr Maes Cymorth Cristnogol yn Bolifia) a chael cyfle i ddysgu am waith Cymorth Cristnogol yno.

Adnod y mis

Meddent wrth ei gilydd. "Onid oedd ein calonnau ar dân ynom wrth iddo siarad â ni ar y ffordd, pan oedd yn egluro'r ysgrythurau inni?"

Luc P24 adn.32

Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Nos Iau, 25 Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod y gangen dan lywyddiaeth y Fns Elina Owen, gyda’r Fns.Gwenno Evans yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eurwen Morris, Pat Corns a Linda Campbell.

Wedi trafod digwyddiadau’r dyfodol, fel, Gŵyl y Pum Rhanbarth, Cyfarfod Blynyddol Machynlleth, a Thaith ddirgel y gangen, cawsom ymhyfrydu fod ein Pwyllgor Anabl wedi casglu £201 at elusen CLIC.

Yna, daeth yr amser i groesawu’r gŵr gwadd, y Bnr Neville Hughes. Fel arfer, mae’n arbenigwr ar greu adloniant hwyliog a chawsom bleser yn ei gwmni.

Wedi rhannu’r aelodau yn ddau dîm, cynhaliodd gwis ar ganeuon poblogaidd. Y tîm a ddaeth i’r brig oedd tîm Eirwen (Griffith) gyda 13 o farciau a thîm Jennie yn dynn wrth eu cwt gyda deuddeg a hanner. Fodd bynnag, prif dasg y gŵr gwadd oedd beirniadu Crefftau Pasg, sef hetiau o waith llaw yr aelodau. Tasg digon anodd i feirniad cydwybodol oherwydd roedd oddeutu deuddeg o hetiau hardd yn cael eu harddangos. Yr enillydd oedd Eirwen (Griffith) gyda het a blesiodd y beirniad a chyflwynwyd gwobr i’r enillydd gan Jennie.

Y Raffl
Rhoddwyd y wobr lwcus gan Bessie a’r enillydd oedd Jean (Northam).

Diolchodd y Llywydd yn gynnes ac yn haeddiannol iawn i Neville ac i Eleanor a Margaret am y lluniaeth.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis – Boreol Weddi 11.00am
Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaidd Cymraeg 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaidd dwyieithog 11.00am
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Phentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)

Ni chynhelir y Gwasanaeth Cymun am 8.00am ar y Sul ar hyn o bryd.

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaidd

Croeso cynnes i bawb i’r gwasanaethau uchod.

Noson Caws a Gwin
Cynhaliwyd noson Caws a Gwin er budd Clwb Arch Noa yng Ngwesty’r Douglas yn ystod mis Ebrill. Diolch o galon i Helen Williams am wneud y trefniadau ac i Christine a Gwyn am eu croeso arferol yn y Douglas. Diolch hefyd i bawb a fu yn cynorthwyo mewn unrhyw fodd ac i bawb a ddaeth i gefnogi ar y noson. Fel canlyniad i’r noson, bydd aelodau bach Arch Noa yn cael y cyfle i fwynhau eu hunain yn Gelli Gyffwrdd ar 10 Mehefin.

Bore Coffi
Cynhelir ein Bore Coffi nesaf, fore Sadwrn, 22 Mehefin, yn Neuadd Ogwen o 10.00am i 12.00pm

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad llwyr a buan i chwi i gyd.

Llanast yn y Llan - Gwasanaeth teuluol anffurfiol. Dewisir thema ar gyfer y gwasanaeth ac mae cyfle i brofi gweithgareddau ymarferol a chreu arddangosfa. Cyfle i blant ac oedolion gael hwyl wrth addoli. Ar ddiwedd y gwasanaeth trefnir lluniaeth i bawb. Dewch draw ar Sul cyntaf y mis i weld beth sy’n mynd ymlaen.

Arch Noa - Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae yn cyfarfod yn Ysgol Abercaseg pob bore Llun am 9.15am.

Bore Coffi
Cynhaliwyd Bore Coffi yn Neuadd Ogwen bore Sadwrn, 9 Mawrth. Diolch o galon i bawb a fu yn cynorthwyo ac yn cefnogi i wneud y bore hwn yn llwydiannus unwaith eto.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon, Rachub
LL57 3LW
☎ **601880**

Diolch
Dymuna Christine, 7 Hen Ysgol, ddiolch i bawb yn Rachub a’r cylch am y blodau a’r anrhegion a dderbyniodd tra roedd yn ysbytai Gwynedd ac Eryri. Diolch yn fawr iawn!

Ennill Cwpan
Dyna wnaeth tîm merched dan 16 mlwydd oed Clwb Bethel, ger Caernarfon. Enillwyd Cwpan Gogledd Cymru ganddynt drwy drechu tîm Northop o 8 gol i 1 ar gae Bae Kimmel. Pwy sgoriodd? Katie Midwinter, Ffordd y Mynydd sgoriodd dair o'r goliau i sicrhau'r gwpan iddynt.

Mae Katie wrth ei bodd yn chwarae pêl-droed ac nid yw hynny'n syndod o gofio pwy oedd ei thaid. Roedd Bobby Morris yn un o'r brodyr chwedlonol a fu'n diddanu tyrfaoedd ar hyd a lled y Gogledd yng nghanol y ganrif ddiwethaf. Go dda Katie a dal ati i. Byddai Bobby Morris wrth ei fodd o glywed am gampau Katie ar y cae pêl-droed.

Priodas Ruddem
Llongyfarchiadau i Ann a Raymond Tugwell ar ddathlu eu priodas ruddem ar 7 Ebrill. Maent am ddiolch o waelod calon i'r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau a'r anrhegion meddylgar a dderbyniwyd ganddynt. Diolch i'r genod am drefnu taith syrpreis iddynt i Rufain. Cafwyd amser bythgofiadwy. Unwaith eto diolch i bawb

Capel Carmel, Llanllechid

Yn ystod gwyliau'r Pasg aeth criw o bobol ifanc Clwb y Dwylo Prysur ar ymweliad â Chonwy. Aethant i weld Plas Mawr, sef, plas o gyfnod y Tuduriaid a godwyd gan deulu'r Wyniaid, perchnogion Plas Gwydir yn Nyffryn Conwy.

Mae Plas Mawr yn werth ei weld gyda dodrefn derw urddasol yn yr ystafelloedd ac mae wedi ei baentio'n hynod o hardd.

Ymwelodd y criw â'r Cei ar ddiwedd y prynhawn i weld y Tŷ Lleiaf ym Mhrydain, ac yna i weld eglwys hynafol y Santes Fair, lle mae rhai o dywysogion Gwynedd wedi eu claddu. Do, cafwyd ychydig o amser i weld rhai o siopau a chael panad a rhywbeth i'w fwyta cyn cychwyn am adref.

TAITH GERDDED FLYNYDDOL

Gorffennaf 20 yw dyddiad y daith gerdded flynyddol a drefnir gan Ann a Raymond Tugwell i gasglu arian at achosion da. Bydd elw eleni yn mynd at C.L.I.C Cancr a Lewceimia mewn plentyndod a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd er cof am Janet Moore.

Bydd bws yn mynd a’r cerddwyr o Fethesda i Lyn Ogwen a darperir picnic i’r cerddwyr i gyd am ddim yn ystod y daith. Os am ymuno ni, cysylltwch ag Ann neu Raymond ar 01248 601077, neu alw heibio am ffurflen noddï.

Croeso mawr i bawb ymuno ar y daith.

CANOLFAN RACHUB

Ar gael ar gyfer
Cyfarfodydd a gweithagaredd o bob math

PRISIAU LLOGI

£10.00 am sesiwn hyd at 4 awr
£15.00 – Partion neu benwythnosau

Cysylltwch â Godfrey Northam (600872) am ddyddiadau rhydd

CAPEL BETHEL (B)

Gwasanaethau

Mis Mai
19: Y Parchedig Merfyn Jones
26: Parch. John Rice Rowlands

Mis Mehefin
02 Miss Eleri Lloyd Jones
09: Y Gweinidog
16 Mr John Roberts
23 Y Parch. Dafydd Hughes.

Oedfaon an 2.00 o’r gloch
Croeso Cynnes i Bawb

CAPEL CARMEL

Gwasanaethau

Mis Mai
19: 10.30 Cymanfa’r Plant – yn arwain Mr H E Jones
5.30: Y Gymanfa Ganu – yn arwain Mrs Rhian Roberts
26: Y Gweinidog 2.00 a 5.00

Mehefin
02: Parchedig D C Williams 5.00
09: Gweinidog 2.00 a 5.00

Yr Ysgol Sul 10.30 y bore
Dwylo prysur, nos Wenr 6.30.
Croeso Cynnes i Bawb

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ 600689

Gwellhad
Braf yw gweld Mrs Rita Jones o gwmpas eto ar ôl llawdriniaeth i’w llygaid. Da iawn Rita.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn a Mr a Mrs Gary Stokes, 18 Gernant wedi eu profedigaeth o golli modryb hoff yn ddiweddar sef Antie Wilson, Cae Pêl-droed. Roedd Antie yn dawel, cwrtais a pharchus bob amser ac wrth ei bodd efo’r plant. Byddwch yn ei cholli yn fawr.

Colli brawd yng nghyfraith wnaeth Mr a Mrs Hugh Jones, 2 Penygraig - Ernie Sullivan. Cydymdeimlwn a chi oll fel teulu yn eich profedigaeth.

Newyddion
A fuasech mor garedig a gadael i’r Golygydd wybod beth sy’n digwydd yn yr ardal os gwelwch yn dda, rhag ofn gadael rhywun allan?

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Llongyfarchiadau
Rydym yn llongyfarch Nerys a Kevin, Ffordd Gerlan, ar enedigaeth mab, Cynan Dewi. Mae'n sicr fod pawb wedi gwirioni efo'r bychan.

Pen-blwydd arbennig
Y mis hwn dathlodd Huw Derfel, Y Wern, ei ben-blwydd yn drigain oed. Llongyfarchiadau mawr iti, Huw. Gobeithio iti fwynhau'r dathlu. Mae'n anodd iawn derbyn fod Huw yn drigain, gan ei fod mor heini

Nain a Taid
Llongyfarchiadau i Dewi a Gwen Griffiths, Ciltrefnus, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganed Cynan Dewi i'w merch, Nerys, a'i phartner Kevin.

Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo gyda Kevin Evans, Ffordd Gerlan, yn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei daid, y diweddar Ernie Sullivan, Glanogwen.

Llongyfarchiadau
Rydym yn estyn ein llongyfarchiadau calonnog i Chloe Hughes, Stryd y Ffynnon, ar gael ei dewis i dîm pêl-droed Merched dan 17 Cymru. Da iawn chdi, Chloe! Mae Chloe yn arbennig o dda mewn sawl agwedd o chwaraeon. Dymunwn y gorau iddi wrth iddi gynrychioli ei gwlad.

Marathon
Rydym yn hynod o falch o Carwyn Evans, Stryd Morgan, a Gethin Jeffreys, Braichmelyn wrth iddynt lwyddo i gwblhau Marathon Llundain, a hynny mewn amser da. Cododd y ddau swm sylweddol o arian tuag at Ymchwil Cystic Fybrosis er cof am y diweddar Gavin Bolton, Bryn Caseg. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch ar eich camp.

Diolch
Dymuna Ann Williams, Stryd y Ffynnon, ddiolch i bawb a fu mor garedig â'i noddï yn ddiweddar er mwyn codi arian i gefnogi Carwyn a Gethin redeg ym Marathon Llundain. Dyma'r drydedd taith gerdded i Ann ei chwblhau mewn blwyddyn, ac mae wedi cael cefnogaeth arbennig o dda bob tro gan drigolion y dyffryn. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich haelioni.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Marwolaeth
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs June Dodd, 10 Bro Emrys, Talybont, yng nghartref ei merch Siân ar ddydd Gwener, 19 Ebrill yn 72 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar fore Sadwrn, 27 Ebrill.

Cydymdeimlwn â Siân, Hannah, a’r teulu oll yn eu profedigaeth chwerw. Bu June yn fam a nain nad oedd mo’i gwell. Roedd yn ffyddlon iawn yn y gweithgareddau oedd yn cael eu cynnal yn Neuadd Talgai. Roedd ar bwyllgor y neuadd, bu’n aelod o Sefydliad y Merched, Llandygái a hefyd yn aelod blaenllaw o’r clwb “Te a Sgwrs”. Bu’n gweithio’n galed yn y gegin bob mis os oedd Bingo ymlaen neu ryw barti neu’i gilydd. Bydd colled enbyd i Siân a Hannah a byddwn ninnau yn Llandygái yn teimlo’r un golled.

Cleifion
Anfonwn ein cofion anwyllaf a’n dymuniadau gorau at Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Lytham, Mary Robinson, Betty Williams a Dorothy Proudley-Williams. Gwellhad buan i chwi i gyd.

Roeddem yn falch iawn o weld Mrs Cassie Tindell, Tŷ Mawr wedi dechrau codi allan unwaith eto. Roedd Roy a hithau yn cerdded drwy’r pentref y dydd o’r blaen – byddwn yn siŵr o weld mwy arnoch Cassie pan fydd y tywydd yn gwella.

Babi Newydd
Llongyfarchiadau i Mrs Joan Willis, Is-y-coed, Pentre Llandygái ar ddod yn nain unwaith yn rhagor – i Marged Eos y tro yma – merch fach i Siân a John a chwaer fach i Macsen. Mae’r teulu bach wedi hen ymgartefu yn y pentref erbyn hyn. Croeso iti Marged Eos; mae Macsen wrth ei fodd cael edrych ar dy ôl.

Bingo
Cafwyd noson ddifyr arall o Fingo yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth, 16 Ebrill. Diolch i Pauline a Raymond am eu gwaith da yn trefnu’r noson, i bawb a roddodd help llaw yn ystod yr eglwys ac i’r ffrindiau a oedd yn bresennol. Gwnaed elw o £100 i’r Neuadd.

Cynllun Gerddi Cenedlaethol
Gerddi Agored er budd Elusennau

Diwrnod Agored
yn Llys y Gwynt
Ffordd Pentir, Llandygái

Dydd Sul, 26 Mai
11.00 – 4.00
Mynediad £.00. Am ddim i blant.

Sefydliad y Merched Llandygai

Croesawodd Eira, y Llywydd, bawb i gyfarfod Mis Ebrill ar Ebrill 25. Cafwyd chwe ymddiheuriad am fod yn absennol. Darllenodd Eirlys gofnodion Mis Mawrth a llofnodwyd gan Eira, ac yna darllenodd Eira'r llythyr misol a thrafod ei gynnwys. Yna, cyflwynwyd Mr a Mrs Shaw o Ddwyran, Ynys Môn i siarad a dweud hanes y gwenyn. Gwyddom eu bod yn greaduriaid prysur iawn a threfn ganddynt yn eu prysurdeb. Synnwyd ni o wybod eu bod yn hŷn na'r dinosoriaid ! Gwyddom mor bwysig ydynt i'n byd ac mor hanfodol yw i ni i gyd eu bod yn cynhyrchu mel.

Noson arbennig iawn a diolchwyd yn gynnes i Mr a Mrs Shaw gan Hefina.

Sesiynau Siarad i
Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs
Douglas Arms Bethesda
20.00 – 21.00
Trydydd Nos Lun pob mis

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd
Anfonwn ein cofion caredig at Jane Couch, Gwynne Edwards, Harry Gross a Joy Radcliffe sydd yn dal i gwyno ers tro bellach. Pleser o’r mwyaf yw gweld rhai ohonoch yn mentro allan pan fo’r tywydd yn caniatáu.

Pen-blwydd arbennig
Dathlodd Mrs Margaret Roberts, Haulfre, Llandygái, ben-blwydd arbennig ar ddydd Llun, 22 Ebrill. Rydym i gyd yn gobeithio ei bod wedi cael amser hapus yn dathlu ei diwrnod mawr gyda’r teulu – llongyfarchiadau a dymuniadau da, Margaret.

Llongfarchiadau
i Gwenan ar ddathlu ei phen-blwydd arbennig yn un ar hugain mlwydd oed ar ddydd Mercher, 15 Mai. Gobeithio ei bod wedi cael diwrnod i’w gofio ym Montpellier, a’i bod yn dal i fwynhau ei hunan yn Ffrainc. Hwyl fawr iti, Gwenan.

Bingo
Nos Fawrth, 9 Ebrill, cynhaliwyd Bingo yn Neuadd Talgai er budd Sant Tegai a gwnaed elw o £200. Diolch o galon i Pauline, Raymond, Nerys a phawb arall a fu’n cynorthwyo yn ystod y noson – roedd yn noson hwyliog a phroffidiol iawn.

Cantabile
Daeth côr Cantabile unwaith eto i Eglwys Sant Tegai ar nos Wener, 19 Ebrill, ac er mai nifer fechan oedd yno roedd pawb wedi eu pleisio’n fawr. Diolch o galon i’r côr ac i Linda Irons am drefnu popeth. Gwnaed elw o £200 i’r eglwys. Diolch i Nerys, Linda a merched yr eglwys am ddarparu lluniaeth i bawb ar ôl y cyngerdd.

Eglwys Agored
Bydd yr Eglwys yn agored o hyn i ddiwedd mis Hydref bob dydd Mercher a dydd Sadwrn. Diolch i’r pentrefwyr caredig ac aelodau eglwysig am wirfoddoli i agor a chau’r eglwys ar y dyddiau hyn.

CLWB CRICED A
BOWLIO BETHESDA

Mae’r Clwb angen

STIWARD RHAN
AMSER

Telerau i’w trafod - oriau, cyflog, dyddiad dechrau.
Derbynnir cais trwy lythyr os gwelwch yn dda at:
Ysgrifennydd, Clwb Criced a Bowlio Bethesda,
Lôn Newydd, Bethesda LL57 3DT

Dyddiad Cau - 7 Mehefin
2013

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Marwolaeth
Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Bob Griffiths, 13 Dolhelyg, yn sydyn ond yn dawel yng Nghartref Plas Ogwen, Bethesda, ar 10 Ebrill. Roedd yn 91 mlwydd oedd.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol ar ddydd Mercher, 17 Ebrill, yn Eglwys a Mynwent Maes y Groes gyda’r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu. Mr Geraint Gill oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn â’i briod, Mrs. Elizabeth Griffiths, ei ferch, Eleri, a’r teulu oll ar yr adeg drist yma yn eu hanes.

Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth June Dodd, 10, Bro Emrys yn dilyn gwaeledd byr. Cynhaliwyd ei hangladd yn yr Amlosgfa ar y 27 Ebrill dan ofal y Parchedig Dafydd Jôb. Anfonwn ein cydymdeimlad at Siân, Jonathan, Hannah a’r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Ysbyty
Gwellhad buan i Pat Roberts 38, Bro Emrys. Da deall ei bod yn gwella’n foddhaol yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Diolch
Hoffai Barbara Jones, 1 Dolhelyg, ddiolch yn fawr iawn i’w holl ffrindiau yn y Dyffryn a thu draw am eu caredigrwydd mawr ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 y mis diwethaf.

Eglwys Maes y Groes,
Talybont

Ar bnawn Sul, 14 Ebrill, cynhaliwyd “Mudiad Café Church” yn yr Ysgoldy. Mae hwn yn fenter newydd ac yn agored i bawb yn y gymuned boed yn hen neu ifanc, lle ceir cyfle i gael paned a lluniaeth ysgafn yn ddi-dâl.

Bydd y rhain yn cael eu cynnal yn y dyfodol ar yr ail Sul o bob mis am hanner awr wedi tri yn yr Ysgoldy. Ddydd Sadwrn olaf y mis cynhaliwyd priodas Alexandra Lill, 39, Bro Emrys gyda Mathew Spencer o Lerpwl. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig John Matthews a Geraint Gill yn cyfeilio. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Victoria, Porthaethwy. Treuliwyd y mis mêl yn Venice. Dymunwn bob hapusrwydd ac iechyd iddynt yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau i Howard a Cora Hutchinson, Felin Cochwillan, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd Woody Noah Hutchinson-Smith ar Ebrill 22ain i Andrea a Dan yn Wakefield, Swydd Efrog.

Capel Bethlehem,
Talybont

Oedfaon

Mai
19 : CAU – Sul y Gymanfa
26 : Parchg. Gerallt Lloyd Evans

Mehefin
02 : Gweinidog ;
09 : Parch. Meirion Lloyd Davies
16 : Gweinidog ;
23 : Parch Emlyn Richards, Cemaes.

Oedfaon am 2 o’r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Noson Goffi
Diolch i bawb am eu cefnogaeth i’r Noson Goffi llwyddiannus a gynhaliwyd yn y festri ar nos Fawrth, 9 Ebrill. Gwnaed elw o £635.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Cafodd nifer o wrandawyr Radio 1 syndod a hanner bore Llun 29 Ebrill wrth iddynt fwyta’u corn fflecs - roedd band yn canu mewn iaith anghyfarwydd! Ia, clywyd geiriau megis 'paid â gadael fynd' yn arnofio dros y tonfeddi wrth i'r Ayes, sef band Ysgol Tryfan chwarae'n fyw ar sioe brecwast Nick Grimshaw. Ia roedd radio 1 wedi cyrraedd Bangor ac yn darlledu o Ysgol Tryfan. O ganlyniad gafodd Lewys Ty'n Llwyn a Leah Creigfryn y pleser o chwarae'n fyw ar y radio ac o'r ymateb cawsant efallai byddem yn eu clywed eto yn y dyfodol!

Eglwys
Sant Cedol

Clwb 100 Mis Ebrill 2013

1af Rhif 57
Alvan G Jones, Rhiwlas
2ail Rhif 1
Anya Jones, Caernarfon
3ydd Rhif 50
Eirwen Williams, Rhiwlas

Garddwest
Bydd ein Garddwest flynyddol yn cael ei chynnal eleni ar brynhawn Sadwrn 25 Mai am 2.00 o'r gloch yn ardd Y Ficerdy, Pentir. Bydd croeso i bawb ymuno yn yr hwyl.

Gwasanaethau'r Sul
Cynhelir y Gwasanaethau bob bore Sul am 9.45:
Sul cyntaf a thrydydd - Cymun Bendigaid - dwyieithog
Ail a Phedwerydd Sul - Boreol Weddi - dwyieithog
Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn wasanaethau'r Sul.

Glasinfryn
Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched
Llywydd cyfarfod Ebrill oedd Sarah Flynn. Cafwyd cyfarfod busnes arferol cyn iddi gyflwyno’r siaradwr gwadd, sef Julia Gilligan o Aber. Testun ei sgwrs oedd gwneud addurniadau hefo eisin. Cafodd bump o’r aelodau llawer o hwyl yn gwneud tedi bêr allan o eisin a phob un yn wahanol ond yn llawn cymeriad unigol. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Ingrid Farrar. Bu pymtheg o aelodau a ffrindiau yn y theatr yn Llandudno i weld y ddrama enwog ‘The Mousetrap’ gan Agatha Christie a chafwyd diwrnod allan braf gan gynnwys pryd o fwyd yn ogystal ag ymweliad â’r theatr. Hefyd, aeth nifer o’r aelodau i Blas Maenan ddiwedd Ebrill i fwynhau sgwrs ar degeirianau gan y perchennog, sydd gan oddeutu 200 o’r planhigion yn ei meddiant! Cafwyd te pnawn ardderchog i ddilyn. Edrychir ymlaen at ymweliad arall â Venue Cymru yn fuan i weld ‘Sleeping Beauty’ ar y rhew. Croes cynnes i bawb ymuno â’r gangen sydd yn cyfarfod ar yr ail nos Fercher o’r mis am 7.30yh yn y Ganolfan yng Nglasinfryn.

Cymdogion newydd
Braf yw croesawu Marian Bryfdir a Dewi i Bro Eryri, Waen Wen, eu cartref newydd. Dymunir pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd. Y mae Marian yn adnabyddus fel athrawes leisiol.

Clwb Cant y Ganolfan – Ebrill
£20 - 62 - Idwal a Gwyneth
£10 - 64 - Myra Jones
£5 - 19 - June Hughes
£5 - 90 - Jan Sandham

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎352835

Prydlondeb
Cyfeiriwyd yn rhifyn Ebrill o’r Llais mai ar 18 Ebrill y bydd y Gog yn cyrraedd yr ucheldir uwchben Cae Mawr, fel arfer. Fodd bynnag ni fyddai hynny’n digwydd eleni oherwydd yr holl rew ac eira a gafwyd yn ystod mis Mawrth.

Ond ni fu raid ofni. Yn gynnar ar ôl 19 Ebrill 19, clywodd Dilys Parry, Bryn Tirion hi yn canu o

gyfeiriad Cae Mawr yn ôl ei harfer gan gadarnhau iddi gyrraedd mor brydlon ag erioed. O gofio i’r Gog deithio'r holl ffordd o gyfandir Affrica, all rhywun ond synnu a rhyfeddu at drefn natur. Mae cymaint nad ydym yn ei ddeall.

Enwau Coll
Mae symudiad y dyddiau hyn i roi ar gof a chadw enwau caeau ac enwau eraill sydd mewn perygl o fynd yn angof.

Buasai’n ddiddorol petai pobl yr ardal yma, yn enwedig y rhai hŷn, yn dod at ei gilydd i gofnodi’r enwau y maent yn eu cofio, oherwydd gyda’r newid sydd yn y boblogaeth, byddant wedi diflannu mewn dim o dro.

Mae rhai, er enghraifft, sydd yn cofio teulu yn byw yn Llidiart Mawr. Bwthyn ar fin y ffridd rhyw ddau gan llath o’r tŷ isaf i’r ysgol ond bu’n adfail ers nifer o flynyddoedd. Mae’r enw yn awgrymu bod giât ar draws y ffordd yn y fan honno yn yr oes a fu, ymhell cyn i Rhiwlas ddatblygu fel pentref, pan oedd y rhan fwyaf o’r ardal yn dir comin.

Ychydig yn is, cyn cyrraedd y safle ailgylchu, mae adfail arall. Bu dau enw ar y bwthyn yma sef Pant Gwyn a Beudy Gors. Y rhai olaf i fyw yno oedd teulu William Jones. Daeth William Jones a’i briod i fyw i 25 Bro Rhiwen. Wrth son am enwau caeau, mae dau ddiddorol ynghlwm a Phlas Pentir. Gelwir llain o dir gerllaw safle’r Plas yn ‘Hopiar’. Llygriad lleol hwyrach o ‘Hop Yard’, man lle tyfir hopys ar gyfer bragu cwrw.

Y llall yw Cae Symar, llygriad o Summer House. Codiad tir ar ran uchaf y cae oedd ‘Summer House’ y Plas. Mae gweld gwartheg ar ben Poncan Symar yn arwydd pendant o dywydd braf.

Dymuno Gwellhad
Cafodd Thomas Pritchard Owen, Carreg y Gath, lawdriniaeth i dynnu pendics yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae’n dda clywed fod Thomas yn gwella’n foddhaol.

Merched y Wawr,
Cangen Rhiwlas

Cyfarfod mis Ebrill
Croesawyd ni i’r cyfarfod gan yr is-lywydd, Helen, ac anfonwyd ein cofion at yr aelodau sydd ddim yn teimlo’n rhy dda ar y funud. Hefyd, trafodwyd materion y mudiad.

Estynnwyd croeso i Mr Eifion Jones a ddaeth atom i sôn am wasanaeth yr Ambiwylans Awyr yng Nghymru. I ddechrau, cawsom ffilm yn dangos yr hyn o wneir gan y gwasanaeth ac yn y cyflwyniad iddo, roedd aelodau’r cyhoedd a gafodd eu cludo i’r

ysbyty gan yr ambiwlans awyr yn dweud eu stori. Yn wir, mewn blwyddyn, mae’r gwasanaeth yn ateb dros 2000 o alwadau gyda phob galwad yn costio £1500. Cychwynnodd y gwasanaeth yn Abertawe yn 2001 a bellach mae gorsaf yng Nghaernarfon ac yn y Trallwng. Yn yr haf, gorsaf Caernarfon yw’r brysaraf yng Nghymru.

Cafwyd cyflwyniad bywiog a diddorol a cawsom gyfle i holi cwestiynau am y gwaith a wneir gan y criw. Roedd pawb o’r farn ei fod yn wasanaeth clodwiw iawn. Diolchodd Einir i Mr Eifion Jones ar ran y gangen.

Gwen ac Anest oedd yn gyfrifol am y te ac Agnes a enillodd y raffl.

Clwb Rhiwen, 24 Ebrill
Yn ein cyfarfod diwethaf daeth dwy ferch ifanc atom o’r elusen Action on Hearing Loss Cymru. Croesawyd hwy atom gan Ann a braf oedd gweld Mr Gruff Owen a Hefin Williams, ein cynghorydd yn bresennol.

Roedd y ddwy o’r mudiad yn rhoi cynghorion buddiol i ni petai y clyw yn ddiffygiol. Os oes unrhyw un yn amau ei fod yn mynd yn drwm ei glyw yna mae’n bosibl cael prawf ar y ffôn. Dyma’r rhif: 0844 800 38 38.

Diolch i Frances a Beryl am wneud y baned.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ **600192**

Cydymdeimlo
Mae dau deulu o’r pentref wedi wynebu profedigaeth yn ystod y mis diwethaf a chydymdeimlwn â’r teuluoedd yn eu galar. Ar Ebrill 21 bu farw William Derek Twigge yn ei gartref ym Maes Coetmor, Bethesda. Mae dwy o’i chwiorydd yn byw yn Nhregarth, sef Mona a’r teulu yn Ffordd Tanrhiw ac Anne a’r teulu yn Bro Derfel. Anfonwn ein cofion atoch i gyd fel teulu.

Bu farw Goronwy Trefor Hughes ar Ebrill 22 yn Ysbyty Gwynedd. Brodor o Benmaenmawr oedd Goronwy ond bu’n byw am ran helaeth ei oes yn Stafford, cyn symud flwyddyn yn ôl i Lys y Coed yn Llanfairfechan. Cydymdeimlwn gyda’i chwaer Ann a’i phriod Gomer, Penrallt, Tal y Cae, a gweddill y teulu. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mawrth, 30 Ebrill.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Angharad a Gerallt Ffordd Tanrhiw yn eu profedigaeth o golli mam a mam yng nghyfraith annwyl iawn sef Mrs Evelyn Owen o Lanfairfechan, a hefyd at Bleddyn a Gethin ei hwyrion. Ni fu yn dda ei hiechyd dros gyfnod o fisoedd a mawr fu eu gofal trosti.

Dathlu Geni
Llongyfarchiadau i Nia Marsden Williams a’i phriod David Williams ar achlysur arbennig o hapus pan anwyd merch fach iddyn nhw ym Mangor ar ddechrau mis Mawrth, sef Catrin. Mae Catrin yn ffodus iawn o gael tri brawd sef, Huw, Owain a Gwion. Ganed a magwyd Nia yn Talgae, Tregarth yn ferch i’r diweddar Huw a Jane Marsden Jones ac yn chwaer i John. Cofion atoch i gyd fel teulu.

Cymdogion Newydd
Croeso i Iolo ac Annie Roberts a’u mab Callum sydd wedi symud i fyw yn Llwydiarth, Tal y Cae o Ynys Môn. Tra yn eu croesawu hwy dymunwn y gorau i Arthur a Nerys Rowlands yn eu cartref hwythau yng Nghefnddwysarn, ger y Bala. Mae Gwilym a Lorna a’u merch fach wedi symud i fyw yn 7 Tal y Cae. Bachgen o Erw Faen, Tregarth ydi Gwilym a daw Lorna o Warrington. Gobeithio y byddwch chithau yn hapus yn eich cartref newydd.

Merched y Wawr
Rhoddwyd croeso i’r aelodau i gyd i Gangen Tregarth o Ferched y Wawr, nos Lun, 8 Ebrill gan y Cydlynnydd, Mary Jones. Cydymdeimlwyd gyda theulu Ellen Griffiths, Erw Faen, a fu farw yn ddiweddar, gan nodi y bu’n aelod gwerthfawr o’r gangen am rai blynyddoedd. Dymunwyd wellhad buan i Gwenllian Owen ac i Carys Williams gan obeithio y byddant yn ôl yn fuan yn y Gangen. Bydd Noson Gelf yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Tregarth ar Fehefin 21 a bydd croeso mawr i’r cyhoedd alw draw. Mae’r gwaith Celf yn ymwneud â thema ‘Yr Arfordir’.

Llongyfarchwyd Margaret Jones, Cae Drain am yr erthygl wych amdani yng nghylchgrawn y Mudiad, sef ‘Y Wawr’.

Croesawyd y gŵr gwadd, Gwilym Evans o Lanrug a ddaeth i siarad ar y testun ‘Oel Morris Evans’. Dyma fusnes arbennig o llewyrchus a gychwynnwyd yn Llan Ffestiniog yn 1856 ac a dyfodd i fod yn fusnes mawr gyda’r cynnyrch yn cael ei

allforio i wledydd megis y Transvaal yn Ne Affrica a’r Wladfa ym Mhatagonia.

Cynhyrchwyd yr oel ar gyfer anifeiliaid ar y dechrau ond maes o law defnyddiwyd yr oel at bob mathau o anhwylderau, ar gyfer pobl a phlant. Roedd Morris Evans yn hen daid i’r siaradwr a daeth a llawer o ddogfennau hynod o ddiddorol i’w dangos. Roedd hyn yn cynnwys posterï yn hysbysebu’r cwmni, llyfrynnau yn ymwneud â defnyddio’r oel, a’r gwaith papur bron yn ddieithriad yn ddwyieithog, a hynny gant a hanner o flynyddoedd yn ôl ! Daeth y cwmni i ben yn saithdegau’r ganrif ddiwethaf.

Diolchwyd i Mr Evans gan Nesta Llwyd a Gwenda Davies a pharatowyd y baned gan Beti, Angharad ac Anwen.

Eglwys y Santes Fair Tregarth

Mai
19: 9.45 y bore, Boreol Weddi
26: 9.45 y bore, Cymun Bendigaid

Mehefin
02: 9.45 y bore, Gwasanaeth Anffurfiol
09: 9.45 y bore, Cymun Bendigaid
16: 9.45 y bore, Boreol Weddi.

Clwb Cant Mis Ebrill
£20.00 Rhif 7 Sue Matthews
£10.00 Rhif 125 Jenny Gordon
£10.00 Rhif 97 Brenda Hughes
£ 5.00 Rhif 96 Laura Jones

Cynhaliwyd Bore Coffi yn Neuadd Ogwen Bore Sadwrn 6 Ebrill. Diolch o galon i bawb wnaeth gefnogi a chynorthwyo. Gwnaed elw o £240.

Cyfarfod Blynyddol
Nos Fercher, 24 Ebrill, cynhaliwyd y Festri Blynyddol. Ail-etholwyd Linda Irons yn Warden y Bobl, Rosemary Williams yn Warden y Ficer, Keith Irons yn Drysorydd a Brenda Hughes yn Ysgrifennydd. Diolchwyd iddynt am ymgymeryd â’i swydd gan y Parchedig John Matthews.

Ar 6 Mai y bydd y gangen yn cyfarfod nesa pan ddaw Richard Jones o Langefnï i sôn am ‘Y Clio - llong yr hogia drwg’ a hynny yn Festri Capel Shiloh am 7.00 o’r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Ymdeoliad
Ymdeoliad braf a haeddiannol i Vivian a Gwyneth Williams, 2 Cerrig Llwydion, Tregarth. Am rai blynyddoedd bu Vivian yn cadw siop yn ardal Pendref ym Mangor ond ar 28 Mawrth, ychydig ddyddiau wedi iddo ddathlu pen-blwydd arbennig yn 65 mlwydd oed, daeth y busnes i ben. Da deall fod Vivian wedi gwella’n dda wedi’r ddamwain a ddaeth i’w ran ym mis Mehefin y llynedd a diolchwn i Gwyneth am ei holl waith hithau yn cadw’r busnes i symud tra bod Vivian yn gwella. Mwynhewch eich ymdeoliad ! Fe hoffai Vivian a Gwyneth ddiolch o galon i Iona Rhys ac Ash Cooke, Cwm Hyfryd, Mynydd Llandygai am baratoi parti pen-blwydd ardderchog i Vivs.

Capel Shiloh, Tregarth

Dyma gyhoeddiadau Shiloh am yr wythnosau nesa.

Yr Ysgol Sul am 10.30
Oedfa’r hwyr am 5 o’r gloch

Mai
19 Parchedig Trefor Jones, Caernarfon
26 Trefniant Lleol

Mehefin
02 Parchedig Gwynfor Williams
09 Parchedig Geraint Roberts, Porthaethwy
16 Parchedig Olaf Davies, Llandegfan
23 Am 2.00 o’r gloch Miri Mehefin yn Penisarwaun [sef Cymanfa Ysgolion Sul Arfon - arweinydd Mererid Mair, Caernarfon]
30 Trefniant Lleol

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Mawrth
2 Owenna Jones £15
1 Margaret Jones £10
49 Eirwen Smith £5

Mis Ebrill
23 Gwenda Davies £15
61 Megan Davies £10
44 Lynda Owen £5



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach

NORTH WALES POLICE
A safer North Wales



GWASANAETHWCH OGLEDD CYMRU

- GWIRFODDOLWCH FEL SWYDDOG HEDDLU
- SWYDDOGION GWIRFODDOL
- O LEIAF 16 AWR Y MIS
- CYFLEOEDD LEDLED GOGLEDD CYMRU

Am fwy o wybodaeth ewch i:
www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk



Mae Heddlu Gogledd Cymru yn awyddus i recriwtio Swyddogion Gwirfoddol o’r holl gymunedau ledled Gogledd Cymru a’r ardaloedd sydd ar ei ffiniau. Gwirfoddolwch fel Swyddog Heddlu am 16 awr y mis a threuliwch eich amser sbâr yn gwneud rhywbeth gwerth chweil. Ewch i’r afael â throseddau a phrofwch eich hun. Gwnewch Gogledd Cymru yn lle diogelach a gwnewch wahanlaeth sylweddol i’ch cymuned. Byddwch yn gwisgo’r un lifrai a Swyddog Heddlu a bydd gennych yr un pwerau i arestio. Hyfforddwyd ar gyfer un o’r swyddi gwirfoddol mwyaf diddorol sydd o gwmpas. Datblygwch amrywiaeth gwerthfawr o sgiliau, hyder a phrofiad.

Cynhelir cyrsiau hyfforddi Swyddogion Gwirfoddol yng Nghaernarfon a Phenygroes.

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Brysiwch Wella
Drwg oedd clywed bod Mrs Twiggy Price wedi bod yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn adferiad buan i chwi. Cymerwch ofal!

Mae llawer heb fod yn rhy dda yn y Pentref. Anfonwn ein cofion atoch gan fawr obeithio y cewch adferiad buan.

Deunaw oed
Llongyfarchiadau i Kavarine Roberts ar ei phen-blwydd arbennig yn ddeunaw oed. Dathliad hapus a llawer o gariad iti a phob hwyl oddi wrth y teulu a ffrindiau.

Arholiadau
Mae pobl ifanc y pentref yn sefyll arholiadau mewn ysgol a choleg. Dymunwn y gorau i chi. Pob lwc!

Eglwys y Santes Ann a’r Santes Fair

Mai 19: Sulgwyn 9.45 Cymun Bendigaïd
Mai 26: 9.45 Cymun Bendigaïd
Mehefin 2: 9.45 Gwasanaeth Teuluol.
Mehefin 9: 9.45 Cymun Teuluol
Mehefin 16: 9.45 Boreol Weddi

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaeth fore'r Sulgwyn. Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun cartref cysylltwch a'r Curad, y barchedig Jenny Hood (605017) neu Mr. Peter Price (601199), neu Mrs. Janet Williams (600434) wardeiniaid yr eglwys.

Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, yn enwedig Mrs Twiggy Price a fu yn Ysbyty Gwynedd.

CHWILAIR MAI 2013

Mynyddoedd Cymru

A	A	W	F	H	R	I	Y	W	Y	D	D	F	A	E	J	L	C	M	B
V	B	H	E	X	M	Y	N	Y	D	D	M	A	W	R	J	U	I	F	S
V	S	H	E	R	I	M	C	R	I	B	Y	D	D	Y	S	G	L	O	G
V	H	C	A	R	W	Y	G	I	R	H	T	I	L	L	N	E	P	E	H
M	D	W	H	U	Z	Y	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	L	Q
U	S	O	F	R	P	Y	D	Q	L	Z	G	R	H	C	U	M	W	G	N
O	Y	R	I	A	S	Z	U	D	I	T	F	D	X	U	P	F	W	R	R
H	C	Q	H	W	E	H	O	Y	A	E	E	G	E	O	M	O	H	A	S
P	T	T	C	B	B	C	U	U	S	F	J	P	L	T	M	G	I	C	V
V	D	C	B	B	F	R	F	O	E	G	A	J	V	I	I	O	R	H	R
X	I	M	H	T	T	O	S	K	G	O	P	D	W	R	C	R	R	M	K
C	B	O	R	C	X	U	V	R	Y	Y	H	S	D	T	M	Y	I	R	E
F	Y	J	D	Z	H	H	D	B	N	C	W	O	S	D	C	T	A	R	A
I	X	N	I	L	X	C	J	N	E	J	M	B	W	T	U	L	D	E	X
M	D	X	K	F	U	P	A	C	R	Q	Y	O	I	L	F	L	A	E	R
Z	Q	C	A	D	A	I	R	B	R	O	N	W	E	N	R	A	G	O	C
T	D	G	W	S	L	Z	E	B	A	E	C	A	J	K	J	G	Y	C	L
N	L	R	V	O	G	J	P	W	T	R	P	G	S	O	W	J	N	J	Q
U	L	F	S	V	T	X	E	U	G	H	E	S	L	Z	E	A	E	F	X
I	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	B	A	D	S	I	P	K	O

Y mis yma mae enw deuddeg o FYNYDDOEDD CYMRU i’w darganfod.

Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i’r gweddill. (Mae LL, CH, DD, TH), ac yn y blaen yn un llythyren yn y Gymraeg, ond at ddibenion y chwilaïr dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW erbyn y cyntaf o Fai os gwelwch yn dda. Bydd gwobr o £5 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi dod o hyd i’r deuddeg, yna’r nifer agosaf fydd yn cael y wobr.

Wrth edrych ar atebion i chwilaïr Ebrill fe sylwais mor lliwgar oedd enwau’r hen gwmnïau bysus ac mae’n siŵr fod pawb yn meddwl mai eu bysus hwy oedd y gorau.

Dyma atebion Ebrill: Bethesda Greys, Cyfni Motors, Holyhead Motors, Llandudno Coaches, Llangoed Red, Mechell Maroon, Nevin Blue, N Wales Silver, Peris Motors, Richards Busy Bee, Seiont Motors, Tucia Motor Co Ltd.

Nifer dda ohonoch wedi cael yr atebion cywir, ond rhai wedi methu cael yr ateb llawn. Gobeithio cewch hwyl gyda’r chwilaïr y mis yma.

Dyma enwau’r rhai a gafodd yr atebion cywir. Herbert Griffiths, Tregarth; Eirlys Edwards, Central Garage Bethesda; Mair Jones, Ffordd Bangor; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Rosemary Williams, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Doris Shaw, Bangor; Glenys Roberts, Hen Barc; Glenys Clark, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Alun Wyn Morris, Gerlan; Alwyn Rowlands, Tregarth.

Enillydd Ebrill oedd Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.

O’r Cyngor

Cyngor Cymuned Llandygai
Cynhaliwyd cyfarfod Ebrill yng Nghanolfan Tregarth gyda’r Cynghorydd Rhys M Llwyd yn y gadair. Estynnwyd croeso i’r Cynghorydd H P Jones fel aelod newydd o’r Cyngor.

Estynnwyd croeso hefyd i ddau swyddog o Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd. Cafwyd trafodaeth fuddiol ynglŷn â phroblemau parcio a ffyrdd diogel i’r ysgolion ar gyfer y plant.

Gwneir ymholiadau eto ynglŷn â phroblemau gorlifo ym Mynydd Llandygai. Mae amryw o lwybrau’r ardal angen sylw a bydd y cyngor yn cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â’r gwelliannau angenrheidiol.

Cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn â Chynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal rhwng 9 Mai a 27 Mehefin 2013.

Trefnwyd i’r Cadeirydd gwblhau holiadur ar Arsyllfa Wledig Cymru.

Mae Gorchmynion Rheoli Cŵn Cyngor Gwynedd yn awr mewn grym a bydd y trefniadau newydd ynglŷn â pheidio â chlirio neu godi baw ci ac yn y blaen, yn cael eu gweithredu yn ystod y misoedd nesaf.

Cyngor Cymuned Bethesda
Gorchmynion Rheoli Cŵn ar draethau – Derbyniwyd llythyr yn dweud fod Cabinet Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo'r cynigion newydd a bydd yr is-ddeddfau yn dod i rym ar y 1 Ebrill 2013. Ceir gwybodaeth bellach gan gynnwys y gorchmynion, rhestrau tir, mapiau o draethau, ayyb ar gael ar lein yn www.gwynedd.gov.uk/gorchmynionrheolicwn

Parc Cenedlaethol Eryri - Diweddariad ar yr adeilad newydd sydd yn cael ei godi wrth Lyn Ogwen a gwahoddiad i unrhyw gymdeithas fynd â’r adeilad neu Gwm Idwal ei hun. Gellir cael manylion pellach yn: <http://blogwen2.wordpress.com/> <http://www.facebook.com/GNG.CwmIdwal.NNR> www.twitter.com/CwmIdwal

Llywodraeth Cymru - Cadarnhad fod y Gorchmyn 2013 Ffordd A5 (C) (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd a Chyfyngu Aros) wedi ei wneud.

Rhandiroedd/ Tyfu Cymunedol - Gwahoddiad i fynychu sesiynau hyfforddiant gan Un Llais Cymru ar sut i sefydlu a rhedeg Rhandiroedd Cymunedol. Bydd yn cychwyn am 6:30 ar Nos Fawrth 14 Mai yn yr Institiwt, Allt Pafiliwn, Caernarfon, LL55 1AT Dywedodd y Cynghorydd Paul Rowlinson y byddai â diddordeb mewn mynychu ac fe ofynnodd am fanylion pellach..

Cyngor Cymuned Pentir
Yn eu cyfarfod ar 11 Ebrill, croesawodd yr aelodau'r newyddion fod yr Arolygydd Neil Thomas, o Heddlu Gogledd Cymru, wedi cytuno i ddod i gyfarfod mis Mai o'r cyngor.

Nodwyd fod aelodau'r Is bwyllgor Cyllid wedi trafod a chytuno y dylid ystyried gosod hysbysfyrddau mewn llefydd penodol yr ardal. Credid y byddai hyn yn fodd o rannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd am waith y cyngor yn ogystal â hysbysebu gweithgareddau eraill. Cytunodd y cyngor llawn i weld beth fyddai cost prynu hysbysfyrddau ac unrhyw oblygiadau cynllunio ac yn y blaen.

Gan nad oedd y cais cynllunio i newid y defnydd Plas Tirion, Pentir, o dŷ preswyl i dŷ haf yn hollol glir, penderfynwyd holi Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd am ragor o wybodaeth.

Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt glirio'r llanast oedd ar y ffordd o Minffordd i Glasinfryn.

Nodwyd fod map wedi ei dderbyn o holl lwybrau cyhoeddus yr ardal. Cytunodd y Cynghorydd Sara Tudor Owen a Hugh Griffiths i gyd-weithio gyda'r clerc i weld pa lwybrau oedd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd a pha rai oedd bellach yn amhosib eu tramwyo, er mwyn cyhoeddi rhestr gyflawn mewn amser.

Côr y Penrhyn

Croeso Gwresog yn Beverley
Ar Nos Sadwrn 13 Ebrill bu Côr y Penrhyn yn diddanu cynulleidfa o bron i 500 o aelodau a chyfeillion Cymdeithas Gymraeg Beverley ger Hull yn Nwyrain Swydd Caer Efrog.

Cynhaliwyd y cyngerdd mewn capel Wesleiaidd yn y dref ac mae'n ffrainc cael dweud fod hwn ymhlith uchafbwyntiau mawr Gôr y Penrhyn dros y blynnyddoedd diwethaf hyn.

Cymeradwyo byddarol
Roedd y canu a'r gynulleidfa yn cyfrannu at gynhesrwydd yr achlysur. Ar ddiwedd y cyngerdd safodd y gynulleidfa fawr ar ei thraed fel un i gymeradwyo perfformiad y côr a chyfraniad unigryw ein hunawdydd gwadd, Cai Fôn Davies, disgybl 12 oed yn Ysgol Tryfan, Bangor. Canodd Cai nifer o alawon gwerin Cymreig a darnau Cerdd Dant yn ei lais soprano bachgennaidd swynol gan gyflwyno i'r gwrandawyr groestoriad teg o'r math o ganu sy'n unigryw i'r iaith Gymraeg.

Gwefr drydanol
Aeth dewis ecleictig y côr o ddarnau, yn cynnwys rhai mor wahanol â Benedictus a genid mewn Lladin a Tydi a Roddaist yn y Gymraeg, gyda Rhyfelgan y Rhufeiniaid yn y Saesneg i lawr yn arbennig o wych. Wrth i'r cantorion gynhesu at eu tasg gellid teimlo'r wefr yn treiddio fel trydan drwy'r gynulleidfa ar bob tu. Diolch i Arwel, ein harweinydd a Fran, ein cyfeilydd am eu cyfraniad nodedig i lwyddiant y noson a hefyd i Arwel Owen ac Idwal Jones am drefnu'r ymweliad. Llwyddwyd i werthu dros 50 copi o CD newydd y côr ac mae hynny ynddo'i hun yn arwydd o werthfawrogiad y gwrandawyr ac yn sicrh helpu i ledaenu enw da'r côr ar hyd ac ar led y deyrnas.

Y Weiren Wib
Mae cymaint o alw am wasanaeth y côr y dyddiau hyn fel bod dau ddigwyddiad lle bu'r côr yn canu yn ystod wythnos olaf Mis Ebrill. Bu'r cyntaf ar Nos Iau 25 Ebrill pam fuom yn Neuadd Henllys, Biwmares yn canu i'r gwsteion yno. Yna, ar Ddydd Gwener 26 Ebrill buom yn canu yn agoriad swyddogol Weiren Wib hwyaf hemisffer y gogledd yn Chwael y Penrhyn. Cafodd pob aelod o'r côr gynnig reid am ddim ar yr atyniad a chewch wybod y tro nesaf faint o'r hogiau fu'n ddigon dewr i fentro arni.

Cyngherddau Llandudno
Cynhaliwyd y cyntaf mewn cyfres o chwe chyngerdd gan y côr yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno ar nos Iau'r ail o Fai. Unwaith eto derbyniodd ein rhaglen a'n cyflwyniadau groeso brwd gan y gynulleidfa gyda sawl un yn dod at aelodau'r côr i ddweud cymaint yr oeddynt wedi mwynhau'r perfformiad. Yn wir dywedodd un gŵr o Stoke on Trent ei fod wedi mynychu pedwar cyngerdd gan gorau eraill yn Sant Ioan ond bod perfformiad Côr y Penrhyn yn rhagori ar y lleill o ddigon. Calondid i'r aelodau a'r arweinydd yw clywed y fath ganmolïaeth ac awn ymlaen o nerth i nerth gobeithio.

Clecs o Beverley
Fel gydag unrhyw daith arall bydd profiadau aelodau o gôr yn amrywio o'r ecstatig i'r trist a'r blinedig a hyd yn oed i'r difrif. Yn ôl D.L. Davies o Fangor "Mater o gryn dristwch i mi fod fy nghyfaill pennaf o Landygái wedi gorfod benthyca trowsus aelod arall i deithio adref ynddo oherwydd iddo brofi anffawd gyda'i drowsus ei hun".

Roedd dau neu dri aelod o dan wylïadwriaeth mewn gwesty ar y ffordd gartref oherwydd bu raid i'r gwestywr eu hatgoffa bod rhaid talu am eu bwyd cyn ymadael â'r fangre. Roedd Dafydd Jones Morris, o'r Ail Fas, yn bendant o'r farn mai cybydd-dod ac nid anghofrwydd henaint oedd i gyfrif am ddwyn y fath warth ar enw da'r côr.

Roedd Henryd Jones o Wrecsam, sy'n aelod o'r tenoriaid cyntaf, wedi gwirioni cymaint â chasgliad o ganeuon ysgafn a roddwyd ynghyd gan Walter i'w canu mewn cyfarfodydd anffurfiol, fel ei fod wedi prynu tri chopi – un i bob poced o'i siaced! Dyna'n wir yw brwdfrydedd!

MODURON
PANDY
Cyf.

Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)



01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.



GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOLA DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOC: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd



- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar



Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Blodau Racca

PENISARWAUN

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605



Posh Paws
Tacluso Cŵn

Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
Ebost: juliaposhpaws@btinternet.com

Hel Sbwriel ym Methesda



Ar ôl gaeaf hir, ailgydiodd aelodau Balchder Bro Dyffryn Ogwen yn eu gwaith gwirfoddol o hel sbwriel ym Methesda. Daeth deg o'r gwirfoddolwyr ynghyd, gyda chymorth Gwen Alun, Swyddog Trefi Taclus, Cyngor Gwynedd, ar gyfer eu sesiwn cyntaf yn 2013.

Dywedodd y Cyng. Ann Williams, sy'n aelod o'r grŵp: "Dwi'n ddiolchgar iawn i'r criw a ddaeth allan unwaith eto i hel sbwriel yng nghanol Bethesda. Mae Balchder Bro wedi trefnu nifer o sesiynau o'r fath yn y gorffennol ac mae'n braf gweld bod eu brwdfrydedd a'u hawydd i dacluso Dyffryn Ogwen yn dal yn gryf. Gwnaethon ni lenwi dros ugain o sachau â sbwriel, yn ogystal â nifer o eitemau mwy, fel darnau o ffensys, hen deiar car, coets a phethau eraill oedd wedi cael eu taflu'n flêr yn lle eu gwaredu mewn ffordd gyfrifol.

"Dwi hefyd yn ddiolchgar i staff a gweithwyr Cyngor Gwynedd am gydweithio â ni. Roeddwn i wedi gofyn iddyn nhw ddod i gasglu'r bagiau roedd criw Balchder Bro Ogwen wedi'u hel ac fe wnaethon nhw wneud hynny o fewn oriau. Mae llawer o lefydd eraill yn y Dyffryn sydd hefyd angen sylw a dwi'n edrych ymlaen at gydweithio gyda chriw Balchder Bro i drefnu mwy o sesiynau hel sbwriel eleni. Rydym i gyd yn awyddus i wneud Dyffryn Ogwen yn lle y gall pawb fod yn wirioneddol falch ohono."

Yn ogystal â threfnu sesiynau hel sbwriel, mae Balchder Bro Ogwen hefyd yn gosod basgedi crog ar Stryd Fawr Bethesda a bydd y criw wrthi yn gosod rhai newydd cyn bo hir ar gyfer yr haf. Mae'r grŵp cymunedol yn gallu gwneud hyn diolch i grantiau y maent wedi'u derbyn gan Gyngor Gwynedd o dan y cynllun Trefi Taclus.

Mae Balchder Bro Ogwen yn agored i bawb o bob oedran sydd eisiau gwneud rhywbeth ymarferol i wella'r ardal a'i gwneud yn fwy deniadol. Os hoffai rhywun helpu neu awgrymu lle cyn sydd angen ei glirio, gallan nhw gysylltu â Paul Rowlinson, ysgrifennydd y grŵp, ar y rhif (01248) 605365.

Am fanylion pellach am Balchder Bro Ogwen, cysylltwch â Paul Rowlinson ar y rhif (01248) 605365 neu paul.rowlinson@trysor.f9.co.uk.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Marchnad Ogwen



Dyma Stondin Crefftau Howget a'i pherchennog Lynda Pritchard

Wedi ymddeol o'i swydd fel athrawes, teimlodd Lynda yr angen i ail afael yn ei diddordeb mewn crefftau o bob math. Cychwynnodd dros bymtheg mis yn ôl, ac fe gafodd ei synnu fel y datblygodd y diddordeb yn boblogaidd - a hynny drwy'r iaith Gymraeg. Mae Lynda yn gweithio o'i chartref. Mae'n ceisio bod yn hyblyg ac yn gallu addasu ei chynlluniau i siwtio gofynion y cwsmer. Mae'n gwerthu mewn siopau led led Cymru yn ogystal â'r Farchnad wrth gwrs.

O ble daeth yr enw ar y Cwmni? Wel, fel Howget yr adweinir trigolion Dyffryn Ogwen. Fel un sy'n hanu o Rachub, yn falch o'i gwreiddiau, ac wedi dod yn ôl yno i fyw ers rhai blyneddodd bellach, teimlodd mai naturiol fyddai ei alw yn Grefftau Howget.. Mae Lynda yn ddiolchgar am y gefnogaeth a dderbyniodd dros y misoedd gan drigolion lleol, a hefyd i'r teulu am eu cefnogaeth a'u help hwythau.

Yn Llais Ogwan mis Mehefin, bydd hanes stondin gacennau yn tynnu dŵr o'ch dannedd!

Mae'r Farchnad yn awr wedi cael gwefan newydd swyddogol sef www.marchnadogwen.co.uk

Cynhelir y Farchnad nesaf ar 13 Mehefin yn Sioe Dyffryn Ogwen

Y BWTHYN TÊ

pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS

PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18^{ed}. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTAL A
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau yn Nyffryn Ogwen rhwng 1825 a 1822

1825

- Codi Capel Bethlehem, Tal-y-bont, i gymryd lle Capel Caegwigin.
- Mr Greenfield, ‘prif reolwr gweithredol Chwarel Cae Braich y Cafn’ yn ’i foddi ei hun yn y Llyn Du ger ei gartref ym Mrynderwen. Gelwid y llyn hwn yn Llyn Greenfield wedi hynny ond trodd yn Llyn Dromffild dros y blynyddoedd.

1827

- Y Wesleaid yn codi capel bychan yn Llanllechid. Fe’i prynwyd, ‘ynghyd â’r tai a berthynai iddo’, gan y Methodistiaid Calфинаidd yn 1834 am £502, ac adeiladwyd Capel Peniel ar y safle.
- Ailadeiladu Capel y Carneddi ar gost o tua £1000 a chodwyd y Tŷ Capel am £124-1-0½.

1828

- Dechrau adeiladu Castell y Penrhyn gan George Hay Dawkins Pennant.
- Codi Ysgol Genedlaethol Rachub (ar y sgwâr).
- 09/1828: Geni’r cerddor Owen Davies Humphreys (Eos Llechid) yng Nghae’r Ffynnon. Fel Owen Davies yr adwaenid ef. Enillodd wobrau yn Eisteddfod Gerddorol Bethesda 1851, 1852 ac 1853. Arweinydd Côr Eglwys Llanllechid. Arweinydd y Church Choral Society a ganodd o flaen y Frenhines Victoria yng Nghastell y Penrhyn yn 1859; anrhegwyd y Côr â Chwpan Arian ar yr achlysur hwnnw. Bu farw ym mis Awst 1898 yn Llechcynfarwy, Môn, yn 70 oed.
- Ailgodi Capel Bethesda.

- Sefydlu Cymdeithas y Cantorion Crefyddol ym Methesda gan ddisgyblion y cerddor Robert Williams.

1829

- Agor Capel Shiloh, Tregarth; ‘y lle cyntaf y cafwyd cennad i adeiladu capel arno ym mhlwyf Llandegai’.

1830

- Codi Ysgol Frutanaidd Tyn-tŵr.

1832

- Codi Capel Rehoboth (W) ym Mharc Moch. Dychwelodd ei aelodau i’w mam eglwys – Shiloh, Tregarth – yn 1836.

1833

- Agor Capel Siloam yn Stryd y Felin ar lan afon Ogwen, gan y Wesleaid, Medi 22, 1833. Symud i’r Siloam newydd ar Allt Pen-y-bryn ymhen amser. Trowyd y capel gwreiddiol yn dai annedd – Siloam Square.

1834

- Geni’r cerddor Robert Davies (Asaph Llechid) yn y Carneddi. Cafodd ei ladd yn Chwarel Cae Braich y Cafn, Awst 29, 1858. Cyfansoddwr anthemau a thonau; ef a gyfansoddodd yr anthem ‘Y Dyn a Aned o Wraig’.
- Sefydlu Cymdeithas Cymreigyddion Bethesda – y gymdeithas gyntaf o’i bath yn y cylch at addysgu a meithrin llenyddiaeth. Gutyn Peris a Gwilym Peris oedd yn ei rhedeg. O’r Gymdeithas hon y tarddodd Eisteddfod Parc-y-moch.
- Codwyd Capel Caersalem (B), sef Rhifau 10 ac 11 Pen-y-graig yn ddiweddarach. Gwelir gwagle ar y mur lle bu llechen las ag enw’r capel arni. Symudwyd wedyn i’r adeilad a drowyd yn Siop Tŷ Mawr ar y Sontryd Fawr ac wedi hynny i Gapel y Tabernacl ar Allt Pen-y-bryn.

- Y Methodistiaid Calфинаidd yn prynu capel bychan y Wesleaid yn Llanllechid, ynghyd â’r tai a berthynai iddo, am £502. Symudodd 38 o aelodau iddo o Gapel y Carneddi. O ganlyniad, rhoddwyd y gorau i gynnal gwasanaethau crefyddol yn Hen Gapel yr Achub a thynnwyd ef i lawr yn 1838.

I’w barhau

Croesair Mai 2013

AR DRAWS

- 1 Mae Stan yn rhy feddw i fod yn un o’r dynion duwiol (4)
- 4 A oes gwell amser iddo ef i ddod rywsut, yn lle poeni a gofidio? (6)
- 7 Gweddillion y goelcerth (3)
- 9 Gwêr (4)
- 10 Props mewn drama (8)
- 11 “--- yn y Nen”, un o ganeuon enwog y Tebot Piws (3)
- 12 Hwyl a sbri (4)
- 13 Mae nhw’n cael neu yn rhoi digon (8)
- 16 Y tymor ffrwythlon ar ei brydferthaf (6,7)
- 19 Yr hyn ddigwyddodd i Saddam a Gaddafi (8)
- 23 Rhibidirês diystyr, er ei fod yn wir i Sais (4)
- 24 Gŵr yr arch a’r gwlybaniaeth! (3)
- 25 Pennod i’r diddeall ddrysus a myfyrio uwch ei phen (8)
- 26 Amser y prysur bwysu, ‘Dydd y ----’ (4)
- 27 Un o anrhydeddau’r frenhines (1,1,1)
- 28 Mae mistar ar hwn hyd yn oed (6)
- 29 Tew ? Mae o’n “---- ei groen” (4)

I LAWR

- 2 Leanne Wood enillodd un Plaid Cymru fis Mawrth y llynedd (12)
- 3 Saer neu weithiwr coed (7)
- 4 Lladrata, yn enwedig yn y de (5)
- 5 Chwit-chwat a di-ddal (5)
- 6 Codi o un adran i adran uwch mewn peldroed (5)

- 8 Eisteddleodd cysegredig, caled ac anghyfforddus yn aml! (8,4)
- 14 Fel tyfiant newydd y gwanwyn (5)
- 15 Y tywydd pan mae’n gafael (3)
- 17 I’r Groegwyr hi oedd duwies y wawr (3)
- 18 Af efo Esyllt yn feddw i mewn iddi yn y tŷ (7)
- 20 Cyfrwng di-wifr (5)
- 21 Llythyr di-stamp? (1,4)
- 22 Syth a chywir (5)

ATEBION CROESAIR EBRILL

AR DRAWS

- 1 Digid, 4 Undeb, 8 Elw, 9 Hanner coron, 10 Undodwr, 12 Meini, 13 Llygadu, 14 Llymaid, 17 Maneg, 19 Ystadau, 21 Wythnos nesaf, 23 Wyr, 24 Fiola, 25 Osian
- I LAWR**
1 Dyheu, 2 Gwn, 3 Drawdod, 4 Unicorn, 5 Dirym, 6 Bendigaidd, 7 Gwylliad, 11 Digynnwrf, 13 Llumanwr, 15 Yn tanio, 16 Llygota, 18 Gwthio, 20 Unfan, 22 Sgi

Os nad ydych yn dilyn peldroed neu rygbi efallai fod maddeuant am beidio cael ateb 13 I Lawr yn gywir.

‘Llumanwr’ yw’r gair a ddefnyddir yr oes hon gan y cyfryngau, ac nid ‘llinellwr’. Syrthiodd nifer ohonoch i’r trap. Wrth roi ‘llinellwr’ roedd yn amhosib i chi gael ateb 17 Ar Drows wedyn. Camgymeriad un neu ddau arall oedd yr ateb i 7 I Lawr. ‘Gwylliad’ sy’n gywir (fel yn ‘gwylliad cochion Mawddwy’). Ystyr hollol wahanol sydd i’r gair ‘gwichiad’ a gafwyd gan rai.

1	2		3		4		5		6			
			7								8	
9					10							
			11									
12					13	14		15				
16				17					18			
19			20		21		22		23			
							24					
25									26			
							27					
		28							29			

Dyma enwau’r rhai anfonodd atebion hollol gywir, gyda chanmoliaeth :

Gareth W. Jones, Bow Street; Ellen Whitehouse, Birmingham; Heulwen Evans, Dilys Parry, Rhiwlas; John a Meirwen Hughes, Abergele; E.E. Roberts, Llanberis; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Elfed Evans, Karen Williams, Llanllechid.

Ond ar y brig y mis hwn y mae ymgais Ann Ifans, Sycharth, 5 Bryn Eglwys, Penisarwaun, Gwynedd LL55 3HE, ac iddi hi yr aiff y wobr gyda’n llongyfarchiadau.

Atebion erbyn dydd Mercher, 5 Mai i ‘Croesair Mai’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

Taith Ddifyr



Dwy awr a hanner o fwynhad pur a gafwyd ar brynhawn Sadwrn, 4 Mai.

Rhyw 24 ohonom oedd wedi mentro i fynd ar daith mewn bws o gwmpas Dyffryn Ogwen i weld cartrefi rhai o enwogion y fro ac i gael dipyn o hanes yr ardal yn gyffredinol. Y Dr. J. Elwyn Hughes oedd y tywysydd, ac roedd ei gyflwyniad ar y meic, yn ôl y disgwyl, yn llawn gwybodaeth ddiddorol. Cawsom y difyr, y dwys a'r digrif ganddo ar y daith gofiadwy hon. Diolch yn fawr Elwyn, a diolch hefyd i yrrwr y bws, sef Derfel.

Dyma'r criw wedi gadael y bws i weld rhyfeddodau Chwarel y Penrhyn a chael ychydig o'r hanes hefyd. (Gyda llaw, wnaeth na neb wirfoddoli i fynd ar y "weiran wib"!)

Agoriad swyddogol y Weiran Wib

Fel yr adroddwyd yn y Llais fis diwethaf, mae'r Weiran Wib ar agor i bawb erbyn hyn ac mae nifer o drigolion dewr y Dyffryn wedi cael y profiad o hedfan uwchben y Chwarel.



Dyma lun o'r Cynghorydd Ann Williams ac Eifion Davies a Glyn Hughes, aelodau o staff y weiran wib fydd yn tywys yn eich tywys ar yr antur os hoffech daro heibio.

Fel rhan o'r agoriad swyddogol aeth y Côr yn ôl i'r fan a roddodd fodolaeth iddo yn Chwarel y Penrhyn dros gan mlynedd yn ôl gyda'r mynyddoedd yn atsain i sŵn y canu i nodi lanisad y fenter newydd.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Ebrill aeth llawer o aelodau i gyfarfod anffurfiol yng Nghaernarfon gyda chwech o ymgeiswyr a oedd yn awyddus i sefyll dros Plaid Lafur Arfon yn etholiad San Steffan 2015

Yna, yng nghanol y mis, aeth nifer o aelodau'r Gangen i gyfarfod o Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Arfon i dynnu rhestr fer ar gyfer y cyfarfod dewis ganol mis Mai – dewiswyd pedwar i gyflawni'r dasg,

Yn ddiweddarach yn y mis, cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen, gan ymdrin â materion mewnol y Plaid Lafur a derbyn adroddiadau am waith y cynghorau lleol a sirol.

Yna, tua diwedd y mis, aeth rhai o aelodau'r gangen ar daith gerdded nodedig o Lyn Ogwen i Fethesda mewn tywydd ffafriol.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen ar 22 Mai (gan gynnwys trafodaeth ar ddwy ddogfen bolisi) a gobeithir cynnal stondin yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen ar 8 Mehefin.

Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar Ebrill 30ain. Croesawyd bawb gan ein cadeirydd Paul Rowlinson gan ddweud ein bod yn falch o weld Ceinwen Evans wedi cyfnod o anhwylder.

Cafwyd gwybodaeth bod llinellau parcio bellach yn cael eu rhoi yn eu lle yn ardal y Gerlan i geisio cychwyn datrys y problemau.

Braf oedd clywed bod person newydd wedi ymaelodi yn y mis diwethaf.

Cynhaliodd Alun Ffred A.C. gymhorthfa yn Gerlan. Diolchwyd i'r Cynghorydd Dafydd Owen am helpu ar y diwrnod. Bydd cymhorthfa nesaf Alun Ffred yn Neuadd Ogwen ym mis Mehefin.

Da yw deall bod y Wifren Wib a ddaeth i dir Chwarel y Penrhyn yn boblogaidd iawn gyda phobl o bedwar ban byd. Mawr yw'r gobaith y byddant hefyd yn defnyddio cyfleusterau'r ardal yn ogystal. Cafodd Côr Meibion y Penrhyn wahoddiad i ganu yn yr agoriad swyddogol ac er i'r gwynt fod yn fain iawn yno cadwdd y glaw draw.

Mae cronfa Apêl Cofeb Gwynfor Evans wedi ei hagar, sef cronfa i godi cerflun teilwng o'n diweddar arweinydd yn 2016, sef hanner can mlynedd ar ôl buddugoliaeth Caerfyrddin.

Mae trefniadau yn mynd ymlaen i gynnal noson gymdeithasol gyda Tammy Jones yng Nghlwb Criced a Bowlïo Bethesda ar Fai 17. Tocynnau £5 yn cynnwys bwffe, croeso i bawb.

Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475



www.owenswales.co.uk

YSGOL YRRU



07982 076 455

01248 605 325

derfelowen@sky.com



Haulfryn - Llanllechid

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG



BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571
lsturrs@googlemail.com

**Hysbysebwrch
yn y Llais
600853**

"J.R."

SGAFFALDWYR

**Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda**

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

m.hughes a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Yr Adran Addysg Gorfforol
Tîm Rygbi blwyddyn 7
Mae'r tîm saith bob ochr wedi ennill twrnament Gwynedd gan ennill pob gem!



Llongyfarchiadau i'r tîm:- Ben Roberts, Sion Davies, Matthew Buchanan, Siôn Jones, Shaun Roberts, Gruffudd Roberts, Joseph Bullock, Cai Griffiths, Jordan Roberts, Pedr Owen a Kieren Briggs.

Tîm Rygbi o dan 13
YDO 54 – Llangefni 0
Tîm Rygbi o dan 15
YDO 19 – Llangefni 14

Llongyfarchiadau i'r timau uchod ar gyrraedd y rownd gynderfynol Cwpan Eryri. Pob lwc iddynt.

Tîm Rygbi Blwyddyn 7



Bwtcamp Robotics
Dwy dechnoleg bwysig iawn sydd yn ein bywydau o ddydd i ddydd, ffonau clyfar a roboteg. Mynychodd Chris Bareham 'Bwtcamp' ym Mhrifysgol Bangor dros y Pasg. Datblygodd ap yn defnyddio meddalwedd 'App Inventor' a'i gysylltu gyda'i robot Lego Mindstorm gan ddefnyddio Bluetooth.

Llongyfarchiadau Chris ar ennill y gystadleuaeth. Tybed ai ef yw peiriannydd roboteg nesa'r dyfodol? Da iawn Chris!!

Ymweliad Disneyland Paris



Ar ddechrau mis Mawrth, cafodd côr Ysgol Dyffryn Ogwen y ffrind o berfformio yn Disneyland Paris, gan gynrychioli'r ysgol a Chymru. Roedd yn gyfle gwych a bu'r côr yn ymarfer yn gyson bob nos Fawrth a nos Fercher a phob aelod yn rhoi o'i orau glas. Cafodd y côr daith hir a blinedig yr holl ffordd i Baris. Aethom ar fws i Dover ac yna cwch am dri o'r gloch y bore o Dover i Calais, ond roedd y teithio yn werth bob eiliad.

Ar y diwrnod cyntaf yn Disneyland aeth y côr ar reidiau ym mharc Disney. Ar yr ail ddiwrnod canodd y côr ar lwyfan yn Disneyland a chafwyd cyfle i fynd tu ôl i'r llwyfan ac yna perfformio. Canwyd y caneuon canlynol: "Dwi'n Gymro - Dwi'n Gymraes", "Canwn Yn Glir", "Dal Fy Llaw", cyfuniad cymysg o ganeuon Disney a "Byd Yn Un". Canodd Elin Cain a Sara Parry ddeuawd ar y llwyfan a dywedodd Sara, "Roedd y profiad yn un gwych! Rydw i'n credu y dylai pob ysgol fachu ar y cyfle i fynd yno fel y gwnaethom ni! Buaswn i wrth fy modd yn cael ail-fyw'r profiad". Ar ôl yr ail ddiwrnod cawsom ymweld â Stiwdios Disney.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr holl oriau a dreuliwyd yn trefnu'r daith ac yn hynod o falch o'r disgyblion a fu'n ymarfer mor galed ac yn perfformio mor wych.

Sioned Carran (Blwyddyn 10)

Ysgoloriaethau
Llongyfarchiadau i'r myfyrwyr canlynol sydd wedi ennill ysgoloriaethau i Brifysgolion:



Sian Mererid a Mari Gwyn: Prifysgol Aberystwyth
Catrin Thomas: Prifysgol Bangor

Ysgol Llangygái

Ymweliad â'r Cynulliad
Aeth aelodau'r Cyngor Ysgol tua Chyffordd Llandudno gyda Mr Morris i ddysgu am waith a chyfrifoldebau'r Cynulliad yng Nghymru. Roedd y plant yn byrlymu wrth adrodd eu hanes yno - ymweliad gwerthfawr iawn.

Ymweliad â Bad Achub Moelfre
Aeth Dosbarth Gwawr a Heulwen dros y Fenai i ymweld â'r bad achub a chriw arbennig o bobol. Cawsant groeso cynnes a chyfle i holi rhai o'r criw, ac roedd cerflun Dic Evans yn cadw llygad arnynt!

Ymweliad â Chastell Penrhyn
Aeth disgyblion Blwyddyn 3 a 4 i Gastell Penrhyn yn ddiweddar i brofi diwrnod plentyn yn Oes Fictoria. Cafwyd cyfle i ddefnyddio'r synhwyrâu ac i chwarae rôl a bydd hyn yn sail i waith y dosbarth yn ystod yr wythnosau nesaf.

Da iawn chi!!
Aeth criw o ddisgyblion yr ysgol i Dwrnament Tag Rygbi yn ddiweddar a daethant yn ôl yn orfoleddus wedi cael y drydedd wobr – ardderchog yn wir!

Hyfforddiant Chwaraeon
Mae disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 yn elwa o hyfforddiant Mr Neil Williams o Criced Cymru sy'n ymweld â'r ysgol yn wythnosol – diolch iddo am ei amser a'i ymroddiad, ac edrychwn ymlaen at weld hynny yn dwyn ffrwyth ar

**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

Newydd agor ym Methesda ym mis Medi
Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

Mwy o fanylion gan Wendy ar 07748206817

**Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun – Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 – 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle

Prisiau rhesymol

Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

**CAFFI COED Y BRENIN**

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

LONDIS
BETHESDA

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

**STEPHEN
JONES**



**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn

Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455

gartref 602455

personol 07770 265976

Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Ysgol Tregarth

Cystadleuaeth Llyfrau

Llongyfarchiadau mawr i grŵp Beca, Aran Gwilym a Nicole a lwyddodd i ddod yn bedwerydd yn y Cwis Llyfrau Cymraeg yn ddiweddar. Da iawn chi a daliwch ati i ddarllen!!!

Gweithdy Cerdd

Cafodd disgyblion Blwyddyn 4 brofiad gwerth chweil yn ddiweddar trwy gymryd rhan mewn wythnos o weithdy cyfansoddi o dan arweiniad y cerddor proffesiynol, Manon Llwyd. Cyfansoddodd y disgyblion ddarn o gerddoriaeth ar y thema a byddent yn cael cyfle i berfformio yn Neuadd PJ yn hwyrach yn y tymor.

Llwyddiant Disgyblion

Llongyfarchiadau i Archie Ball am ddod yn ail mewn cystadleuaeth ddringo drwy Gymru. Pob lwc i ti yn y rownd derfynol drwy Brydain. Llongyfarchiadau i Eban Hargreaves am basio arholiad clarinét yn ddiweddar. Rhaid parhau i ymarfer rŵan.

Trip Blue Planet

Ers wythnosau, mae’r plant wedi bod yn cynllunio taith Aled Afal ar draws y moroedd mawr i weld ei ffrind Ana Banana yn St Lucia. Roedd pawb yn pendroni sut fath o bysgod fyddai o dan y tonnau tyfn. Felly dyna drefnu trip i Blue Planet ger Caer er mwyn mynd i arsylwi a darganfod. Bu’r plant yn rhyfeddu yn y twneli tanfor wrth weld y siarcod yn nofio uwch eu pennau, a’r pysgod trofannol yn gwibio rhwng y cwrel. Cafwyd diwrnod gwerth chweil, a phawb wedi dechrau dysgu am yr holl fywyd môr a allai fod o dan gwch arbennig Aled Afal!

Tag Rygbi

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 a gymerodd ran yng nghystadleuaeth rygbi tag yn ddiweddar. Cafwyd diwrnod da iawn ac ychydig o lwyddiant i dîm Tregarth 1. Da iawn chi!

Clwb Garddio

Mae’r tywydd yn braf a’r dydd yn ymestyn, felly mae Clwb Garddio Tregarth wedi ail-ddechrau bob prynhawn dydd Gwener o dan arweiniad Mr David Gale. Mae’r plant wedi bod yn brysur yn chwynnu a phlannu hadau a phlanhigion newydd o bob math.

Water Aid



Bu pob dosbarth drwy’r ysgol yn gwneud gwaith ar Water Aid fel rhan o’n gwaith dinasyddiaeth. Yn nosbarth Ffrydlas cafodd y plant gyfle i deimlo drostynt eu hunain faint o ymdrech yw cario dŵr o bellter. Aethant at i fesur a phwyso 20L o ddŵr, gan i ni weld cyfeiriad at hyn sawl tro yn ystod ein gwaith ymchwil. Rhoddwyd yr holl ddŵr mewn amrywiol gynwysyddion a chael tro’n ei gario ar hyd yr iard! Er yr holl hwyl a chwerthin, buan y sylweddolwyd tasg mor heriol yw hi i lawer, o ferched yn arbennig, nôl a chario cymaint a hyn (a mwy!) o ddŵr yn ddyddiol.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Teuliodd Dosbarth Ogwen brynhawn difyr yn arsylwi ac adnabod y creaduriaid bach sy’n byw yn Afon Caseg. Daeth arbenigwyr o Cyfoeth

Naturiol Cymru atom gyda llond twb o bryfetach a chawsom gyfle i edrych arnynt yn ofalus drwy chwydd wydr ac yn chwilio am eu henwau. Dysgom pa mor bwysig yw creaduriaid fel pryfed y gro a phryfed Mai yn y gadwyn fwyd. Mae llygredd yn eu lladd felly mae eu presenoldeb yn arwydd o lendid dŵr yr afon.

Noson Gwricwlaidd

Cynhaliwyd Noson Gwricwlaidd Mathemateg a Rhifedd yn ddiweddar i ddeffro ymwybyddiaeth ein rhieni o wahanol ddulliau mathemategol mae’r ysgol yn eu defnyddio wrth ddysgu mathemateg a rhif i’n plant. Cafwyd noson fuddiol iawn, gyda rhieni yn cael cyfle i drafod yn anffurfiol gyda’r athrawon. Roedd cyfle hefyd i weld yr holl adnoddau amrywiol sydd yn cael eu defnyddio wrth addysgu a dysgu a chefnogi pob plentyn drwy’r ysgol. Diolch o galon i’r holl rieni a fachodd ar y cyfle, a’r athrawon am eu hymrwymiad. Edrychwn ymlaen at gynnal noson o’r fath eto y tymor nesaf.

Ysgol Abercaseg

Llwybr Antur



Ers rhai blynnyddoedd bellach, un o brif ddymuniadau plant yr ysgol ar gyfer gwella’r tu allan yw cael offer chwarae mawr ar yr iard i wneud amser egwyl yn fwy diddorol. Cyflwynodd y Sgwad Syniadau gais cryf i’r Pennaeth ar ran eu cyd ddisgyblion ac eleni mae’r freuddwyd wedi cael ei gwireddu gyda llwybr antur gwych wedi cael ei osod y tu allan ar gyfer holl blant yr ysgol. Agorwyd y llwybr ar ddechrau’r tymor, ac mae’r plant i gyd yn mwynhau’r adnodd yn fawr iawn.

Cân Ysgol Abercaseg

Mae’r ysgol wedi bod yn lwcus yn ddiweddar i groesawu un o berfformwyr amlycaf y Dyffryn i’n plith. Mae Lisa Jên Brown wrthi ar hyn o bryd yn cydweithio gyda disgyblion Blwyddyn 2 i gyfansoddi cân am Ysgol Abercaseg a Bethesda. Bydd y gwaith gorffenedig yn cael ei recordio a bydd cyfle i rieni a chyfeillion yr ysgol i brynu copi ar grynno ddisg. Edrychwn ymlaen yn fawr i’w chlywed.

Llyfrnod Gwerth Chweil!



Llongyfarchiadau mawr i Iwan Gould o Flwyddyn 2 sydd wedi ennill gwobr mewn cystadleuaeth i ddylunio llyfrnod. Trefnwyd y gystadleuaeth gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr. Da iawn ti Iwan, a chofia wario dy docyn Llyfr yn ddoeth!

Neges Bwysig PC Thomas

Braf oedd croesawu PC Dewi Thomas yn ôl i'r ysgol unwaith eto'r tymor hwn. Y tro hwn bu'n siarad efo disgyblion Blwyddyn 1 a 2 am ymddygiad. Bu'n sôn am y rheolau sydd yn rhaid eu dilyn o fewn yr ysgol, a'r rhai sydd yn berthnasol y tu allan i giatiau'r ysgol. Cafodd wrandawiad astud iawn, a braf cael dweud bod pawb yn gweithredu ar ei gyngor doeth.

Clybiau Ffrangeg a Dreigiau Bach

Yn dilyn llwyddiant y Clwb Mathemateg tymor diwethaf, mae'r disgyblion erbyn hyn yn mwynhau mynychu clwb Ffrangeg a Dreigiau Bach ar ddydd Mawrth. Penllanw'r clwb Ffrangeg fydd diwrnod Ffrengig i'r ysgol gyfan ar 7 Mehefin, pan gynhelir cinio efo blas Ffrengig iddo, ychydig o gerddoriaeth Ffrengig a digon o sgwsio yn Ffrangeg!

Diogelwch Dŵr

Bu Mr Griffiths yn siarad efo disgyblion Blwyddyn 2 yn ddiweddar am ddiogelwch dŵr. Bu'n sôn am y rheolau sydd yn rhaid eu cofio wrth gerdded ar lan afon neu wrth ymweld â lan y môr. Diolch iddo am sgwsr hwyliog a diddorol iawn.

Camu yn ôl mewn amser

Yn ddiweddar bu Dosbarth Ffrancon ar ymweliad addysgol â Chastell Penrhyn. Cafodd y disgyblion brofiadau gwerthfawr iawn wrth edrych sut yr oedd bobl yn byw yn oes Fictoria. Yn ogystal â chael taith o amgylch ceginau'r Castell roedd cyfle i wisgo rhai o wisgoedd y cyfnod. Roedd y disgyblion i gyd wrth eu boddau ac yn dyheu am gael cofnodi'r cyfan ar ffurf stori ar yr 'ipads' ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Gallwch ddarllen eu straeon gorffenedig ar wefan yr ysgol www.ysgolabercaseg.org <http://www.ysgolabercaseg.org>

Clwb Cinio a Phrynhawn Abercaseg

Mae plant y clwb yn hynod o brysur y tymor yma. Thema'r clwb ydi 'Tyfu' ac maent wedi bod wrthi yn plannu blodau, actio, mesur a dysgu caneuon sydd i gyd yn ymwneud â'r thema. Cofiwch y gall rhieni'r plant fydd yn cychwyn yn y dosbarth meithrin ym mis Medi gofrestru eu plant ar gyfer y clwb trwy gysylltu â'r ysgol.

Clwb Gwyliau Abercaseg

Mae darpariaeth gofal plant yr ysgol yn parhau i ehangu .Y clwb diweddaraf i gael ei sefydlu ar safle'r ysgol yw'r 'Clwb Gwyliau'. Mae'r clwb i blant rhwng 3-11oed ac yn cychwyn ar Fai 28ain. I unrhyw un sy'n awyddus i ddefnyddio'r ddarpariaeth neu angen gwybodaeth bellach, ffoniwch 07818000415.

Cyngerdd Cerddorfa Iau y Sir

Llongyfarchiadau mawr i Macsen o flwyddyn 6 am gael ei ddewis i gymryd rhan unigol yng nghyngerdd blynyddol Cerddorfa Iau y Sir. Mae Macsen wedi gweithio'n galed iawn dros y blynyddoedd diwethaf i ddysgu chwarae'r baswn a'r sacsoffon ac mae'n amlwg fod y gwaith caled wedi gweithio! Da iawn ti Macsen, mae pawb yn yr ysgol yn falch iawn ohonot ti!

Gŵyl Tag Rygbi

Yn dilyn cyfres o wersi Tag Rygbi yn yr ysgol fe aeth tim o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i Glwb Rygbi Bethesda i gystadlu yn erbyn ysgolion y dalgylch mewn Gŵyl Tag Rygbi. Cafodd pawb ddiwrnod bendigedig – diolch i fyfyrwyr Coleg Menai am drefnu.

Blue Planet

Fel rhan o'u gwaith ar y thema 'dŵr' bu disgyblion blwyddyn 2 a 3 ar ymweliad â Blue Planet ar gyrion Caer. Roedd pawb wrth eu boddau yn dysgu mwy am greaduriaid y môr ac yn cyfarfod ambell bysgodyn dychrynlyd!



Dyma Lois yn cael cyfle i gyffwrdd â seren fôr!

Diogelwch Dŵr

Diolch i Mr Mike Griffiths am ddod i'r ysgol i roi gwersi pwysig iawn i ddisgyblion dosbarth Ogwen. Roedd yn yr ysgol i sôn am ddiogelwch dŵr, boed yn yr ardd, yn y llyn, afon neu fôr. Roedd pawb wedi gwrandao'n astud ar yr hyn oedd ganddo i'w ddweud a gobeithio byddant yn cofio'r gwersi pwysig yma yn y dyfodol.

Ysgol Rhiwlas

Ymwelwyr o Loegr

Braf oedd cael cwmni disgyblion a staff Ysgol Pulford o dde Lloegr am y diwrnod. Cawsom amser prysur yn gwneud llwyau caru yn dilyn eu hymweliad ag Ynys Llanddwyn. Dysgodd plant Ysgol Rhiwlas rhywfaint o Gymraeg i'w ffrindiau newydd a braf oedd gweld pawb yn cyd-chwarae yn naturiol ar fuarth yr ysgol. Cafodd Ysgol Pulford berfformiad cerddorol gan blant Rhiwlas ac roedd bwrlwm yn y neuadd ginio. Diolch i Mrs Halstead am ei gwaith caled gyda'r llwyau caru ac i Anti Sharon am fod mor barod i goginio i'n gwesteion.

NSPCC

Cafodd blynyddoedd 5 a 6 sesiynau gan yr NSPCC yn ymwneud â Childline. Mae'r plant yn deall fod Childline yno ar eu cyfer a bod yn bwysig siarad hefo oedolion os oes ganddynt ofidion. Braf oedd clywed fod y plant yn ymateb mor aeddfed. Da iawn chi blant!

Tre'r Ceiri

Aeth yr adran Iau ar daith addysgol i Dre'r Ceiri yn ddiweddar. Cawson nhw gwmni Rhys Mwyn a dysgon nhw am fywyd y Celtaid a gweld adfeilion y tai crwn. Roedd dipyn o waith cerdded ond plant heini iawn sydd yma yn Rhiwlas a doedd dim llawer o gwyno!

Diogelwch dŵr



Daeth Meic Griffith i'r ysgol yn ddiweddar i drafod peryglon dŵr hefo blynyddoedd 1-6. Dysgodd y plant am ffyrdd i achub eu bywyd eu hunain ac eraill a chafwyd brynhawn diddorol a gwerth chweil. Diolch i Mr Griffith am ei frwdfrydedd a'i gyflwyniad. Negeseuon pwysig iawn, wir!

999 Dewch draw, dewch draw!



Cafodd bawb gyfle i wisgo dillad y gwasanaeth tân pan ddaeth Gwawr atom yn ddiweddar. Roedd plant y cyfnod sylfaen wrth eu bodd yn cael gwisgo'r dillad a syndod mawr oedd gweld pa mor drwm oedd y dillad! Mae pawb wedi addo edrych am larymau mwg adref ac atgoffa Mam neu Dad i'w profi - ydych chi wedi profi eich larwm tân yn ddiweddar?

Clwb garddio

Diolch i Lucy, mam Jenny a Hazel am roi ei hamser i'n helpu hefo garddio yn yr ysgol. Mae'r gwelyau blodau wedi eu paratoi rŵan yn barod i'w hadu i dyfu llysiau. Mae un gwely i ddosbarth yr adran Iau ac un arall i'r Babanod - tybed llysiau pwy fydd yn tyfu orau?

Ysgol Llanllechid

Dymuniadau da

Llongyfarchiadau i Miss Emma a Mr Sichon ar eu priodas yng ngwlad Thai yn ddiweddar. Pob dymuniadau da i'r cwpwl i'r dyfodol.

Pen-blwydd Hapus!

Pen-blwydd hapus arbennig i Mrs Wilson a Mr Huw Edward Jones!

Taith Blwyddyn 1 i Dreborth a Moelyci

Plannu, garddio a gofalu am blanhigion... dyna mae disgyblion Blwyddyn 1 (Dosbarth Mrs Bethan Jones a Mrs Nerys Tegid) wedi bod yn ei wneud yn ddiweddar. Cawsant ymweld â chanolfan blanhigion arbennig iawn ym Meithrinfeydd y Brifysgol yn Nhreborth, lle'r oedd pob math o blanhigion gwahanol - o'r 'Venus Fly Trap' i goed bananas! Roedd y plant wrth eu boddau yn gweld y rhyfeddodau! Yn y p'nawn, cawsant fynd i blannu a garddio ym Moelyci.

Taith Blwyddyn 4 i Gastell a Charchar Beaumaris



Cafodd Blwyddyn 4 (dosbarth Mr Stephen Jones) hwyl a sbri yn ystod eu hymweliad â Chastell Beaumaris. Treuliwyd oriau difyr yn crwydro oddi fewn i'w furiau gan synnu a rhyfeddu ar yr adeilad hanesyddol.

Wedi hyn aethpwyd o amgylch y dref gan gofnodi ac arsylwi ar ei nodweddion cyn treulio gweddill yr amser yn y carchar, a sôn am garchar! Roedd y plant yn llawn diddordeb wrth wrando ar sut oedd pobol yn cael eu cosbi ers talwm ac yn synnu yn enfawr at yr hyn oedd yn digwydd i rai pobl am droseddau bychain iawn! Taith addysgol a fu'n gryn agoriad llygad!

Blwyddyn 6 Cynulliad

Mae Blwyddyn 6 (dosbarth Ms Hanna Huws) yn edrych ar eu cyfleoedd a'u cyfrifoldebau yn y byd mawr a thu hwnt er mwyn gwneud eu marc ar gymdeithas. Gall yr ardal ymfalchïo yn y criw o ddinasyddion blaengar yn Llanllechid sydd wedi dewis pob math o achosion i ymgyrchu drostynt i'r dyfodol.

Mae gan unigolion yn eu plith fwriad i daclo tlodi, gwella ysbytai, datrys argyfwng ffermio, sicrhau parhad y Gymraeg, mynnu hawliau plant, hyrwyddo heddwch, amddiffyn anifeiliaid, gwarchod yr amgylchedd, rhoi cerdyn coch i hiliaeth mewn pêl-droed, annog ffitrwydd, a lleihau'r pwysau gwaith ar bobl ifanc. Ble well felly i ddechrau ar eu hymgyrchoedd nag ymweliad i ddysgu am Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn y swyddfa fawreddog yn Llandudno? Yno cafwyd croeso cynnes a... miliwn o bunnoedd! Do wir... ond i'w cyllido ar gyfer anghenion Cymru. Profiadau gwerthfawr i ddinasyddion blaengar ifanc ardal Ogwen!

Dosbarth Derbyn - Oriel Môn a Phlas Newydd

Cafodd y Dosbarth Derbyn (Dosbarth Mrs Wilson) amser arbennig o dda ar ymweliad ag Oriel Môn yn Llangefni pan gawsant fynychu gweithdy Celf o dan ofal yr artist Anwen Burgess [mam Efa Lois]. Bu'r disgyblion yn efelychu arddull Stephen John Owen gan ddefnyddio pastel, creonau a phaent dyfrlliw. Yn ystod y prynhawn aethant draw i Blas Newydd i gerdded ar hyd y llwybrau natur a chwilio am arwyddion o ddyfodiad y Gwanwyn.

Blwyddyn 4 Ymweliad â Fferm

Roedd hi'n un o'r diwrnodau braf hynny o Wanwyn, sydd wedi bod mor brin eleni, pan aeth Blwyddyn 4 ar eu taith i fferm Cae'r Graig, Efailnewydd. Cawsant goeso brwd gan Gwyndaf Jones a fu'n eu

haddysgu am bwysigrwydd ffermio a chadwraeth. Bu'r diwrnod yn gyfoethog o brofiadau ac roedd hi'n bleser gweld y plant yn llawn brwdfrydedd yn cerdded o amgylch gyda'u clipfyrddau! Mae Gwyndaf wedi llwyddo i droi un o'r beudai yn ystafell ddosbarth a chafwyd gwers yno yng nghanol yr holl greiriau amaethyddol o'r oes a fu. Cyn mynd adref cafodd y plant gyfle i grwydro drwy'r caeau a sylwi ar y cloddiau eithnog gan ddyfalu enwau'r caeau. Diwrnod i'w gofio. Diolch am y croeso.

Blwyddyn 3 Traeth Cemlyn

Aeth disgyblion B1 3 (Mrs Rona Williams) i Warchodfa Natur Traeth Cemlyn, Ynys Môn am y diwrnod, lle cawsant astudio bywyd gwyllt y glannau yng nghwmni Mr Ben Stammers (tad Charmaine a Mabon). Cawsant gyfle i chwilota ar y traeth a chasglu pob math o wymon, cerrig a chregyn a dysgu adnabod adar y môr a'u cynefinoedd. Bu cryn drafod a chwestiynu wrth sylwi ar effaith y llanw ar y tirwedd. Diwrnod gwerth chweil yn yr awyr agored! Diolch Mr Stammers!

Rygbi

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu perfformiad yng Nghlwb Rygbi Caernarfon yn ddiweddar: Erin, Jac a Danny Jones, Caio, Guto, Owain, Iestyn, Siôn, Josh Dignam, Tommy, Sam, Aaron a Dewi

Traws Gwlad

Cynhaliwyd ras draws gwlad yr Urdd ar Stad y Faenol yn ddiweddar ac yn cymryd rhan o'n hysgol ni roedd y canlynol: Thalia, Melanie, Maisy (3ydd), Mared, Mari, Swyn, Boe, Lauren, Lottie, Esme, Iestyn, Aron F ac Aaron P. Llongyfarchiadau gwresog i chi.

Archifdy Caernarfon

Er mwyn dysgu mwy am gyfnod y Tuduriaid daeth Ms Gwenda Williams o Archifdy Caernarfon i'r ysgol. Roedd ganddi arteffactau diddorol i'w dangos gan gynnwys yr esgidiau a ddefnyddid cyn wellingtons, llestri bwyta a dillad y cyfnod. Roedd Elin a Cerwyn yn edrych yn grand iawn yn y dillad!

James and the Giant Peach

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 fynd i theatr Venue Cymru yn Llandudno i weld cynhyrchiad o nofel Roald Dahl *James and the Giant Peach*. Roedd yn sioe arbennig iawn ac roedd dehongliad y cwmni cynhyrchu yn hynod glyfar ac yn plesio'r gynulleidfa ifanc yn fawr. Ac i goroni'r cwbl cafwyd picnic ar y prom yn Llandudno!

CYNGERDD

BRYN FÔN

Iaf o Fehefin

2013

yng Nghlwb

Criced a Bowlio

Bethesda

Am 7.30

TOCYN £8

TOCYNWY/AR GALL: Rhianon Linds 01246 801526 neu Ann 01246 801583
neu Eleanor 01246 801599 Neu Sgip Felly (iwr Newydd/Ogwen), Bethesda

She's gonna be mynd at Gwenda Aidd Eleanor Jones
i brynu cyfarpar i Ward Alan, Talyty Gwynedd, Bangor.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

BOREAU COFFI NEUADD OGWEN

HYSBYSIAD PWYSIG

Bydd y neuadd ar agor ar gyfer boreau coffi a gweithgareddau eraill ym misoedd Mai, Mehefin, Gorffennaf ac Awst 2013.

Disgwylir i'r gwaith ar y Neuadd gychwyn ym mis Medi ac nid ym mis Mai fel y cyhoeddwyd o'r blaen.

NEUADD OGWEN, BETHESDA

BOREAU COFFI



18 Mai: Caban Gerlan
25 Mai: Gorffwysfan
01 Mehefin: NSPCC
08 Mehefin: Samariaid
15 Mehefin: Eisteddfod Dyffryn Ogwen
22 Mehefin: Eglwys Glanogwen

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

Clwb Criced a Bowlio Bethesda
Noson yng Nghwmni

TAMMY JONES

7.30 Nos Wener, 17 Mai 2013

Tocynnau: £5.00 (gyda bwffé)
gan Neville 600853
a Mary 600274

Cynhelir Raffl tuag at
Gyfeillion Ysbyty Gwynedd

Trefnir y Noson gan
Gangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Canolfan Cefnfaes BETHESDA GYRFA CHWIST

Mai 28
Mehefin 11 a 25
am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

SIOE AMAETHYDDOL DYFFRYN OGWEN, BETHESDA Dydd Sadwrn 8 Mehefin 2013



ar
Gaeau Rygbi
BETHESDA

Ceffylau
Cŵn
Cynnyrch cartref
Dofednod
Defaid
Mabolgampau
Stondinau

Mynediad

Oedolion £4.00
Pensiynwyr £2.00
Plant £1.00

www.sioedyffrynogwen.co.uk

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

Mehefin 8^{fed}
(Sioe Dyffryn Ogwen)

Gorffennaf 13^{eg}
(Llys Dafydd)

Awst 10^{fed}
(Llys Dafydd)

Bwydydd a Chrefftau

www.marchnadogwen.co.uk

Cymanfa Annibynwyr
Dosbarth Bangor a Bethesda

Dydd Sul, 19 Mai 2013

yng
Nghapel Carmel Llanllechid

10.30 Cymanfa Ysgolion Sul
Arweinydd: Mr. Huw Edward Jones

5.30 Cymanfa Ganu
Arweinydd: Mrs. Rhian Roberts

Croeso cynnes i bawb

GWERSI PIANO

(yng ngŵydd rhiant neu ofalydd)
Arholir gan yr Associated Board.
Telerau rhesymol !

Cysylltwch â:
Gerwyn Llwyd, LWCMD, FVCM
Ffôn: 602901

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011


ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

I gynnwys eich gweithgareddau lleol yn
Nyddiadur y Dyffryn cysylltwch â

Neville Hughes
☎ 600853

Taith o Amgylch y Fro gydag Arwyn Oliver

Taith 2
Llwybr Ffridd Fawr



Cychwyn ger Meddygfa'r Hen Orsaf a cherdded heibio tai Lôn Sarnau, ffatri G.L. Jones ac i gyfeiriad Pont Sarnau.

Yn syth wedi croesi'r bont, troi i'r dde heibio fferm Tanysgrafell Isaf.

Cyrraedd y Lôn Gefn yn ymyl tai Tanysgrafell a throi i'r dde.

Wedi cerdded oddeutu 30 metr i gyfeiriad Tregarth fe sylwch fod arwyddbost llwybr ar y chwith.

Dilynwch y llwybr i fyny i gyfeiriad y Ffridd Fawr ac ymhen ychydig byddwch yn cerdded o dan y lein fach a fyddai'n cludo llechi o'r chwarel i Borth Penrhyn.

Cadw at y llwybr a chroesi llwybr arall. Ewch yn syth ymlaen heibio i arwyddbost gyda phaent coch arno.

Ymhen ychydig byddwch yn cyrraedd prif lwybr y Ffridd Fawr. Ewch i'r dde a dilyn y llwybr drwy hen giât fochyn a thros bont fechan bren.

Dilynwch y llwybr drwy'r ffridd a mynd trwy giât fochyn. Trowch i'r chwith i fyny'r cae gan gadw at yr eithin. Nid oes llwybr clir am ychydig yma. Bydd tai Pen y Ffriddoedd yn y golwg erbyn hyn. Cadwch at y ffens ar y chwith.

Anelwch am gornel chwith y cae nes cyrraedd y giât fochyn.

Ewch drwy'r giât a dilyn y llwybr i fyny i gyfeiriad coedwig (Parc Dafydd Ellis - oedd yn llawn o "gowbois ac Indians" slawer dydd yn ôl!!). Mae'r llwybr yma'n wlyb mewn rhai mannau.

Ar ôl mynd drwy giât haearn, ewch ymlaen heibio i giât fochyn arall (llwybr i gyfeiriad Ffynnon Bach ac Ysgol Bodfeurig ydi hwn).

Mae saeth felen ar bostyn yn dangos y llwybr i'w ddilyn gan gerdded hyd odre'r parc.

Ymhen rhyw ddeng munud fe ddylech ddod ar draws mainc ar y chwith. Mae'n werth treulio rhyw bum munud yma i gael eich gwynt atoch a mwynhau'r olygfa tua'r Carneddau a'r Fenai.

Ymlaen ar y llwybr drwy giât fochyn, rhwng tŷ a garej nes cyrraedd y ffordd ger Bryn Eglwys.

Trowch i'r chwith a cherdded i lawr yr allt heibio Eglwys St Ann's nes cyrraedd tai Bryn Geraint.

Troi i'r dde o flaen y tai a dilyn y llwybr drwy giât fochyn i lawr at lwybr Llyn Coed y Parc.

Cyrraedd llwybr Llyn Coed y Parc a throi i'r chwith. Mae'r llwybr yn dilyn Afon Galedffrwd.

Yng ngwaelod y llwybr troi i'r dde ac anelu at "ddrws" yn y wal fawr ar y chwith. Mynd trwy'r agoriad at y Felin Fawr.

Croesi'r cledrau a cherdded rhwng yr hen ffwndri a siediau'r trenau gan ddilyn y ffens werdd ac i lawr at y Lôn Gefn.

Ymlaen i'r chwith a phasio'r stad ddiwydiannol. Troi i'r dde wrth arwydd llwybr cyhoeddus, heibio rhes o dai a thrwy giât fochyn i lawr llwybr Pont Sarnau ac yn ôl i Fethesda.

Pellter: Bron i ddwy filltir a hanner

Amser: Oddeutu awr a hanner

Offer: Esgidiau addas - rhannau o'r llwybr yn wlyb.

Mwynhewch!!

Cymdeithas Genweirwyr Dyffryn Ogwen

'Rŵan bod Mis Mai yn ei anterth mae'r pysgotwr mentrus yn troi ei sylw at lynnoedd mwy diarffordd y Gymdeithas. Un o uchafbwyntiau'r tymor i lawer fydd y bererindod gyntaf i Ffynnon Lloer. 'Dwi'n dweud 'ty ro cyntaf' yn fwriadol, oherwydd 'dydych chi byth yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn Ffynnon. Weithiau bydd llawer o bysgod llai i'w cael trwy'r tymor tra, ar adegau eraill, ceir llai o bysgod ond bydd y rhai sydd yno yn slabiau trwm.

Mae'r llwybr i fyny yn dipyn o 'heic' a deud y lleia a bydd llawer yn torri'r siwrnai drwy 'sgota pyllau'r afon a mynd o dow i dow. Bach ond barus ydi pysgod y nant, ac mae hwyl i gael drwy guddio'n y rhedyn rhag eu llygaid bach craff ac mae'n esgus perffaith i gael pum munud er mwyn cael eich gwynt yn ôl atoch.

Y tro diwethaf i mi ymweld â'r llyn, sydd yn gorwedd mewn cwm rhwng Pen yr Ole Wen a Charnedd Dafydd, bûm yn sgwrsio â chyfaill a oedd yn hel atgofion plentynod am ddyddiau Sadwrn braf. Byddai criwiau hogia'r dyffryn yn dal y bws i ben Llyn Ogwen ac yna'n mynd i fyny i 'Ffynnon' ble byddai teciall a thanwydd cymunol wedi eu cuddio'n ofalus rhwng y meini geirwon ers yr ymweliad blaenorol.

Pluen yn unig a ganiateir yma ac mae'n rhaid cael ymateb fel cath os ydych am fachu pob cynnig. Yn ei ddull cynnil a hynod dywed William Roberts Ty'n y Maes am Ffynnon Lloer yn ei gampwaith 'Llawlyfr y Pysgotwr' 'ceir ymddi bysg lliwgar a dymunol' sydd yn dal yn wir heddiw dros gan mlynedd yn ddiweddarach.

Er ei fod dros 100 metr yn is na Ffynnon Lloer, mae'n debyg mai Llyn Bochlywd yw'r un sy'n cael ei 'sgota leiaf gan aelodau'r Gymdeithas. Mân yw'r pysgod ar y cyfan ac maent o liw tywyllach na rhai Ffynnon Lloer, ond os yw'r amodau'n ffafriol bydd ambell ddiwrnod pan fydd y 'sgotwr medrus yn cael cynnig ar bob cast.



Cwta hanner awr hamddenol yw'r siwrne i Lyn Idwal ac os oes lleoliad mwy prydferth yn bodoli, 'dwi eto i ddod ar ei draws. Cytunir yn gyffredinol mai un o feibion Owain Gwynedd oedd yr Idwal gwreiddiol ond mae peth anghytuno ynglŷn â'i dynged a'i gysylltiad hefo'r llyn. Yn ôl rhai, fe'i boddwyd yno gan ei dad maeth Nefydd Hardd, ond yn ôl eraill fe laddwyd Idwal mewn brwydr yn erbyn y Sacsoniaid ac amlogwyd ei gorff ar lan y llyn yn ôl arferiad y dydd.

Beth bynnag yw'r gwir, ac er gwaetha'r harddwch a'r pysgota (sy'n gallu bod yn wych), mae gofyn i'r 'sgotwr fod yn ofalus yma, yn enwedig wrth gerdded trwy'r dŵr gan fod y glannau bâs yn plymio'n ddirybudd mewn mannau. Yr un math o blu sy'n gweithio yn y tri llyn hyn; yn bennaf, plu gwlyb megis Haul a Gwynt, Iar Ddŵr, Chwilan Ben Glec, Diawl Bach a Bibio.

Draw yn Llyn Ogwen, mae'r pysgota wedi bod yn ardderchog ers stocio Ebrill - yn enwedig ar ddyddiau mwyn a chymylog. Gyda phedwar sesiwn stocio eto i ddod a rhediadau'r eog a'r gwnedyn hefyd o'n blaenau, mae'n argoeli'n dda!

Pob lwc!

Gareth Evans

Emrys ap Iwan, 1848-1906
Llais Proffwyd



Beth wyddoch chi am Emrys ap Iwan? Cenedlaetholwr, ieithydd, cymeriad tanbaid diddorol ar y naw ! Ganwyd ef ym mlwyddyn y chwyldroadau (1848), ond mae ei neges yn gwbl amserol ac yn berthnasol iawn i’n sefyllfa bresennol argyfyngus ni yma yn y Gymru Gymraeg: “Pe trinid chwi fel yr ydych chwi yn trin y Gymraeg, trengai pob copa ohonoch cyn Calan Mai”. Dyna’r math geiriau a geid ganddo.

Os am wybod rhagor am ei weledigaeth, mynnwch gopi o CD ddiweddaraf stiwdio Utgorn Cymru, Emrys ap Iwan, a mwynhewch wrando ar ddehongliad ysgubol Dafydd Glyn Jones o weledigaeth un o wir fawrion y genedl.

Bydd ar werth yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai yng Nghlynnog Fawr (01286 660 853) ac yn eich siop lyfrau Cymraeg lleol. Mae’n bleser pur cael gwrando ar dros awr o neges ddeifiol Emrys a Dafydd fel ei gilydd, a hynny am y pris rhesymol iawn o £5.

Cythraul y Bêl Gron

Oes gennych chi ddiddordeb yn y gêm bêl-droed? Faint ydach chi’n ei wybod am ei hanes? Wyddoch chi er enghraifft ym mhle y cafodd y bêl-droed ei chwarae gyntaf – a phryd? Pa brifardd oedd yn ‘flaenwr bach sydyn’ ?

Pa nofelydd Cymraeg chwaraeodd i’r Darans ? Datgelir y cyfan, mewn pedair sgwrs ddifyr ar CD lafar, gan gynchwaraewr nid an-enwog Locomotif Llanberis... ia, Arwel Jones (Hogiau’r Wyddfa) wrth gwrsl!

Mwynhewch awr o adloniant pur gan un o gymeriadau hoffus Dyffryn Peris, un o’r ‘bobl sy’n gwneud cymdeithas’.

Mae’r CD ‘Cythraul y Bêl Gron’ ar werth am £5 yn eich siop lyfrau Cymraeg leol. Neu ffoniwch y cyhoeddwywr - Canolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr ar 01286 660 583- am gopi trwy’r post (£6).

Cymorth ar gael i glybiau chwaraeon Gwynedd

Mae hybu ffitrwydd yn un o flaenoriaethau gweledigaeth Byw’n Iach Cyngor Gwynedd ac mae’r gist gymunedol yn parhau i gefnogi mudiadau’n ymwneud â chwaraeon ledled y sir.

Mewn cyfarfod diweddar, fe wnaeth panel Cist Gymunedol Gwynedd ddyfarnu grantiau i fudiadau ledled y sir. Fe fuddsoddwyd £24,072.82 gan y gist i helpu’r clybiau hyn dyfu a chynnig gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Ymysg y rhain roedd clybiau pêl-droed, trampolîn, sboncen, caiacio, a dringo yn ogystal â nifer o fudiadau eraill.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer Gwynedd Iach:

“Bwriad y gist ydi cefnogi amrywiaeth o chwaraeon ledled y sir. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd clybiau chwaraeon yn ein cymunedau ac mae’n bwysig eu bod yn cael pob cefnogaeth posib. Mae’n braf gweld fod arian o gronfa Cist Gymunedol Gwynedd yn parhau i fod o gymorth i nifer helaeth o glybiau a sefydliadau chwaraeon yma yn y sir.

Cynghorir cymdeithasau sy’n chwilio am help ariannol ar gyfer eu prosiectau i gysylltu â David Lloyd Williams am wybodaeth bellach. Gellir ei ffonio ar 07766 990 380 neu ei e-bostio ar davidlloydwilliams@gwynedd.gov.uk

Llyfrgelloedd yn cynnig cymorth newydd i ddarllenwyr â nam ar eu golwg

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd yn cynnig cymorth newydd i bobl sydd wrth eu boddau’n darllen ond sy’n cael trafferthion oherwydd problemau gyda’i golwg.

Mae holl Lyfrgelloedd Gwynedd yn cynnig amrywiaeth helaeth o wasanaethau i bobl sy'n ddall, rhannol ddall neu sydd â nam ar eu golwg. Mae’r gwasanaethau sydd ar gael yn cynnwys:

- Llyfrau Print Bras - Cymraeg a Saesneg;
- Llyfrau CD ac MP3 sain - Cymraeg a Saesneg;
- Meddalwedd Zoom Text ar gyfrifiaduron yn llyfrgelloedd Pwllheli, Caernarfon a Bangor;
- Offer Chwyddwydr - ar gael i gwsmeriaid i'w ddefnyddio mewn rhai llyfrgelloedd.

Mae llyfrau sain yn ddefnyddiol hefyd i bobl sy’n well ganddyn nhw wrando ar lyfr yn hytrach na'i ddarllen.

Dywedodd y Cynghorydd Ioan Thomas, aelod Cabinet Gofal Cwsmer Cyngor Gwynedd sy’n arwain ar lyfrgelloedd: “Mae gwasanaeth llyfrgelloedd y Cyngor wastad yn ymdrechu i gyrraedd gofynion ein defnyddwyr.

“Rydw i felly yn hynod o falch bod ein llyfrgelloedd bellach yn cynnig amrywiaeth o ddatrysiadau er mwyn sicrhau bod ein defnyddwyr dall, rhannol ddall neu sydd â nam ar y golwg yn medru ymgolli mewn llyfr a gwneud y mwyaf o’r hyn sydd gennym i’w gynnig.”

Mae manylion cyswllt ac amseroedd agor ar gyfer llyfrgelloedd Gwynedd ar gael o’r wefan: www.gwynedd.gov.uk/llyfrgelloedd

CHWARAEON

Rygbi



Colled
Roedd Eglwys Glanogwen dan ei sang ddiwedd mis Ebrill wrth i ni ffarwelio ag un o'r cymeriadau mawr yn hanes Clwb Rygbi Bethesda.

Roedd Wil Twigge yn chwarae bachwr i'r tîm cyntaf yn y 70au a dechrau'r 80au ac mae llw o storïau difyr amdano ar y cae rygbi.

Roedd o'n gymeriad hoffus a phoblogaidd gyda gwên ar ei wyneb bob amser. Roedd yn ei elfen yn y clwb ar ôl gêm, yn tynnu coes hwn a'r llall, ond yn barod i dderbyn pob dim yn ôl. Roedd ei hiwmor iach yn rhan ohono tan y diwedd.

Un bach o gorff oedd Wil ac roedd llawer yn synnu ei weld yn chwarae yn y rheng flaen o bob man. Bychan neu beidio, does 'na neb yn cofio Wil yn cymryd cam yn ôl ar unrhyw achlysur ar y cae.

Bydd colled fawr ar ôl Wil yn y gymdogaeth ac mae swyddogion, chwaraewyr a chefnogwyr y clwb yn estyn eu cydymdeimlad dwysaf i Blod, Liam a'r teulu i gyd.

Hanes y tymor
Bu hwn yn dymor anodd iawn ar y cae chwarae i'r tîm cyntaf.

Collwyd Steven Roberts, Guto Elis-Williams, Gareth Ogwen Williams, Iwan Williams a Paul Edwards ymysg y blaenwyr drwy anafiadau drwg. Collwyd dau flaenwr arall, Dylan Williams a David Buckley oherwydd gwaharddiadau.

Yn ffodus, daeth Dylan Hughes yn ôl yn dilyn anaf hir dymor a fo oedd un o brif sgorwyr ceisiau y tîm eleni. Camodd Robin Williams a Graham Davies i'r adwy ar sawl achlysur a chafwyd perfformiadau canmoladwy gan Dylan Jones. Daeth Guto'n ôl i'r tîm ar gyfer rhan olaf y tymor.

Doedd 'na fawr o syndod felly mai brwydro i

geisio osgoi syrthio i Adran 2 o Gynghrair y Gogledd fu hanes y tymor hwn. Am y rhan helaethaf o'r tymor, roedd Bethesda ymhlith y tri chlwb oedd ar waelod y tabl.

Ond, pan oedd pethau'n edrych yn ddu, cododd hogia' Pesda eu gêm. Cafwyd buddugoliaethau nodedig i ffwrdd yn erbyn Caernarfon ac ar Ddôl Dafydd yn erbyn Rhuthun yn y cynghrair ac yn rownd gynderfynol Cwpan y Gogledd.

Hyd yn oed pan oedd Bethesda'n colli, llwyddwyd i gasglu pwyntiau bonws a bu'r rheini'n ddigon i ni orffen yn bedwerydd o waelod y tabl.

Prif sgoriwr y clwb unwaith eto eleni oedd Mathew Parry gyda 161 o bwyntiau.

Mae'r clwb yn siomedig na fydd yr hyfforddwr, Keith Withers, yn parhau efo ni'r tymor nesaf. Diolch yn fawr i ti Keith am dy waith diflino a'th hir amynedd!

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
cysylltwch â
Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant 3420271

Mae antur yn aros amdanoch...

Dewch i ddarganfod traethau ysblennydd, teithiau cerdded hyfryd a rhaglen weithgareddau yn llawn cyffro. Neu ymwelwch ag un o'n hatyniadau gwyh i'r teulu cyfan: teithiwch yn ôl mewn amser a darganfod eich rhyfelwr mewnol yng Nghastell Henllys, ymunwch â'r hwyl ganoloesol yng Nghastell Caeriw, neu manteisiwch ar gyfle i fod yn artist yn Oriel y Parc.

Cewch fwy o wybodaeth ar www.arfordirpenfro.org.uk.

**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**
**Pembrokeshire Coast
National Park**



Ymwelwch â'n stondin yn Eisteddfod yr Urdd i ddarganfod diwrnod allan gwyh.